

## Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Mawrth 2020	Clerc y Pwyllgor
Amser: 12.45	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddArchwilio@cynulliad.cymru">SeneddArchwilio@cynulliad.cymru</a>

---

### (Rhag-gyfarfod preifat)

(12.45 – 13.00)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

#### 2 Papur(au) i'w nodi

(13.00)

##### 2.1 Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW): Diweddariad gan Lywodraeth Cymru (27 Chwefror 2020)

(Tudalen 1)

##### 2.2 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Adran 106 – Sylwadau gan Mark Harris, Cyngorydd Cynllunio a Pholisi Cymru, Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (27 Chwefror 2020)

(Tudalennau 2 – 4)

#### 3 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(13.00 – 14.30)

(Tudalennau 5 – 41)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-09-20 Papur 1 – Llywodraeth Cymru

Andrew Slade – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru

John Howells – Cyfarwyddwr, Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio,

Llywodraeth Cymru



Neil Hemington – Prif Gynllunydd, Llywodraeth Cymru

**(Egwyl)**

(14.30 – 14.40)

**4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru**

(14.40 – 15.45)

(Tudalennau 42 – 87)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-09-20 Papur 2 – Llywodraeth Cymru

PAC(5)-09-20 Papur 3 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (27 Chwefror 2020)

Dr Andrew Goodall – Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Alan Brace – Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:**

(15.45)

Eitemau 6 & 7 a'r cyfarfod ar 16 Mawrth 2020

**6 Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law a'r prif faterion**

(15.45 – 16.10)

**7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law**

(16.10 – 16.30)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

27 Chwefror 2020

Annwyl Mr Ramsay

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy llythyr diwethaf, oedd yn rhoi diweddariad ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio.

Ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth ychwanegol y gallaf ei darparu o ran diweddariad, ar wahân i gadarnhau ein bod yn dal yn y broses o fynd ar drywydd ymglyfreitha gyda'r bwriad o sicrhau'r canlyniad gorau i'r pwrs cyhoeddus. Mae'r broses yn un faith a byddaf wrth gwrs yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan barhau i sicrhau bod buddiannau arian cyhoeddus yn cael eu cynnal.

Yn gywir

**Tracey Burke**  
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**



## Public Accounts Committee

### Inquiry into Effectiveness of Local Planning Authorities in Wales

#### Section 106 – Comments from Mark Harris, Planning & Policy Advisor Wales, Home Builders Federation (27 February 2020)

Following the evidence sessions held with the RTPI and WLGA on 10 February, Mr Harris (who attended the roundtable session on 27 January) has provided some points of clarification to a series of questions asked around Section 106 agreements.

- It is not just the Vale of Glamorgan who employ a S106 officer other Local Planning Authorities (LPAs) do including Cardiff and Bridgend to my knowledge.
- A Section 106 is a legal agreement so a developer is at risk of legal action if it does not comply with it. The resource issue here is with Councils legal teams not the planning department.
- The principle of the Section 106 agreements are set out both in National Guidance Welsh Office Circular 13/97: Planning Obligations, a Policy within the Local Development plan and often Supplementary Planning Guidance (SPG). In particular the SPG's often contained detailed information on how the Section 106 will be calculated [[link to Cardiff SPG](#) as an example]
- Section 106 agreements can be amended but this is unusual and normally linked to a revised application which might change for instance the number of houses proposed thus affecting the calculation of the Section 106. Negotiations over Section 106 requirements normally take place during the planning process with the Section 106 having to be agreed prior to determination of the planning application.
- All policy advise on Section 106 agreements includes the flexibility to consider viability, ultimately if the Council ask for too much and the schemes becomes unviable then the development will not take place at all.
- Large House builders make considerable contributions via Section 106 agreements by way of example Barratt Homes in 2019 spent £8 million

on physical works in the community to improve highways, local outdoor spaces and community facilities [A photo of Section 106 contributions on just one site of 263 homes in Cardiff is attached]



S106.pdf

- The issue with Affordable Housing and Section 106 is that it's not a direct requirement. So for example a development of a certain size will always generate a certain number of extra children and if the local school has no capacity for those children then the developer has to pay for the extra school capacity to make the development acceptable (not have a negative effect), another example would be a highway junction close to the site which is at capacity will have to be improved to take account of the extra traffic to make it safe. However, unlike the examples above new homes do not generate a need for affordable housing, the need already exists, asking developers to contribute to the affordable housing supply has just become an acceptable contribution were it is viable to do so. Nearly all affordable homes provided by private house builders are now provided without grant and the price paid for the home by the Register Social Landlord is less than the cost to build it so every affordable home has a negative impact on the viability of the scheme. This is why as part of Section 106 negotiations it is the affordable housing element which is unfortunately often reduced.
- Once the development starts developers cannot change their mind on the Section 106 agreement other than by reapply for a new planning application and amending the Section 106 agreement attached to, in the same way as the agreement was originally agreed. This very rarely happened but will be for a good reason as this process could take a considerable length of time.
- It is unfair to say developers 'bully' planning authorities, all that developers can do is play within the policy requirements of the LPA, if the LPA does not have strong and clear policies in place then there is a risk that they will find it harder to secure Section 106 payments.

- It also wasn't mentioned in any of the responses that many of the LPA's do charge a monitoring fee for the Section 106 so this should be available to fund the monitoring and enforcement of the agreements [taking the Vale of Glamorgan which was mentioned as an LPA who have a full time officer dealing with Section 106 they use the money raised by this monitoring fee to fund the post in financial year 2018-19 the Council secured £69,569.64 in total as a monitoring fee across 26 Section 106 agreements].

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Llywodraeth Cymru

### Papur Tystiolaeth cyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Sesiwn – 09.03.2020

#### Ymchwiliad i effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru

---

##### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae cynllunio defnydd tir yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu er budd y cyhoedd. Mae'r fframwaith ar gyfer y system gynllunio yn cynnwys y canlynol: deddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth, cylchlythyrau a chyfarwyddiadau. Mae polisi cynllunio yn cymhwyso'r fframwaith cyfreithiol i fathau gwahanol o ddefnydd tir mewn lleoliadau ac amgylchiadau gwahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisïau cynllunio cenedlaethol cynhwysfawr a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru gyntaf yn 2020 a chaiff ei adolygu'n barhaus. Cyhoeddwyd Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru ym mis Rhagfyr 2018 ac mae'n adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Teithio Llesol a Deddf yr Amgylchedd yn llawn drwy hyrwyddo creu lleoedd fel yr egwyddor drefniadol ar gyfer y system gynllunio. Hefyd, mae cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol yn amlinellu sut y dylai awdurdodau cynllunio lleol a'r Arolygiaeth Gynllunio gyflawni'r polisi. Er nad oes ganddynt rym y gyfraith, mae'n rhaid i bawb sy'n rhan o'r broses gynllunio ystyried Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol, sydd wedi cael eu profi a'u cadarnhau gan y Llysoedd.

1.2 Mae Deddf Adeiladu 1984 yn cynnwys pwerau i greu rheoliadau adeiladu o ran dyluniad ac adeiladwaith adeiladau a'r gwasanaethau, y ffitiadau a'r cyfarpar a ddarperir mewn cysylltiad ag adeiladau. Mae awdurdodau lleol ac Arolygwyr Cymeradwy yn cyflawni'r swyddogaeth rheoli adeiladu.

##### Awdurdodau Cynllunio a Rheoli Adeiladu Lleol

1.3 Ceir 25 o awdurdodau cynllunio lleol (22 Prif Awdurdod a thri Awdurdod Parc Cenedlaethol). Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yn awdurdodau cynllunio lleol yn eu rhinwedd eu hunain. Nid oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau rheoli adeiladu. Mae gan y mwyafrif o'r awdurdodau lleol un adran sy'n rheoli'r swyddogaethau cynllunio a rheoli adeiladu.

1.4 Dyma brif elfennau'r system gynllunio:

- mae cynlluniau datblygu yn ofynnol ar lefel genedlaethol, strategol (rhanbarthol) a lleol;
- mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio i ddatblygu;
- gall achosion o dorri rheolaeth gynllunio fod yn destun gweithdrefnau gorfodi.



### 1.5 Dyma brif elfennau'r system rheoli adeiladu:

- mae rheoliadau adeiladu yn nodi gweithdrefnau a gofynion perfformiad ar gyfer adeiladau a gwblhawyd er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch, lles a chynaliadwyedd.
- awdurdodau lleol (Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol) neu Arolygwyr Cymeradwy sector preifat sy'n gweithredu'r system rheoli adeiladu.
- mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau na ellir codi tâl amdanynt, gan gynnwys gorfodi, dymchwel, strwythurau peryglus, diogelwch mewn meysydd chwaraeon, cyngor ar y Ddeddf Waliau Cydrannol, anghydfodau rhwng cymdogion.
- Nid oes gan Arolygwyr Cymeradwy unrhyw bwerau gorfodi.


1.6 Ceir disgrifiad manylach o'r systemau cynllunio a rheoli adeiladu yn Atodiad A ac Atodiad B.

## 2. Heriau darparu gwasanaethau cynllunio gyda llai o adnoddau

2.1 Mae adnoddau'r system gynllunio wedi lleihau yn yr hirdymor o ran gallu, capasiti a chydnerthedd, sy'n ymestyn yn ôl i 1996 pan gafodd Llywodraeth leol ei had-drefnu. Roedd y Cynghorau Sir blaenorol yn darparu gallu a capasiti o ran sgiliau cynllunio arbenigol mewn meysydd hanfodol megis cynllunio strategol, mwynau a gwastraff, bioamrywiaeth, y dirwedd a demograffeg. Mewn llawer o feysydd, ers i'r awdurdodau unedol gael eu creu, mae sgiliau arbenigol wedi cael eu colli – gydag awdurdodau cynllunio lleol yn canolbwyntio ar swyddogaethau craidd, sef paratoi cynlluniau datblygu lleol a phenderfynu ar geisiadau yn bennaf.

2.2 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn 2019, ac Adroddiad y Comisiwn Archwilio, yn dangos yn glir y lleihad yn yr adnoddau a neilltuwyd i gynllunio ers 2009-10. Yn ôl cyflwyniad CLILC, ers 2019-10, mae'r adnoddau a neilltuwyd i gynllunio wedi lleihau dros 50% – sy'n fwy nag unrhyw faes gwasanaeth arall. Daw hyn ar adeg pan fo awdurdodau cynllunio lleol wedi wynebu disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd a gwleidyddion i gyflawni'n effeithiol y dyletswyddau statudol a osodwyd arnynt gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf Cynllunio) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf Llesiant).

**Ffigur 1:** Newid mewn Termau Real o ran Gwariant Gwasanaeth, o 2001-02 a 2009-10, £m



**Ffynhonnell:** Amcangyfrifon sylfaenol: RO (2001-02 a 2009-10) a manylion RA (2017-18)

**Darn o dudalen 11 o gyflwyniad CLILC i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad Cenedlaethol – Cyllideb Llywodraeth Cymru 2019-20, dyddiedig 25 Hydref 2018**

2.3 Law yn llaw â'r lleihad mewn adnoddau, mae'r gweithlu yn heneiddio oherwydd diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gynllunwyr ifanc ar ddechrau eu gyrfa. Mae cofnodion aelodau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ar gyfer 2018 yn nodi mai 45 oedd oedd oedran cyfartalog eu haelodau a oedd yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i'r broses o gynllunio gweithlu'r sector cyhoeddus, a chynaliadwyedd cynllunio fel proffesiwn yn y dyfodol.

**Dadansoddiad o Oedran Aelodau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru**  
**Aelodau Cyswilt, Siartredig a Thrwyddedog**

	<b>Nifer</b>	<b>Canran y cyfanswm</b>	<b>Oedran cyfartalog</b>
Awdurdod Lleol	370	47%	45
Sector Cyhoeddus Arall	69	9%	46
<b>Cyfanswm y Sector Cyhoeddus</b>	<b>439</b>	<b>56%</b>	
Sector Preifat Ymgynghorwyr Annibynnol	242	31%	41
	39	5%	60
<b>Cyfanswm y Sector Preifat</b>	<b>281</b>	<b>36%</b>	
Arall	50	6%	50
Sector Cyhoeddus yn Lloegr	15	2%	37
<b>CYFANSWM</b>	<b>785</b>	<b>100%</b>	<b>45</b>

**Darn o'r astudiaeth o Aelodau'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, 2018**

2.4 Mae'r lleihad mewn adnoddau wedi arwain yn anochel at berfformiad is, er gwaethaf pob ymdrech gan lawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol i liniaru'r effeithiau. Ystyriwyd yr holl adnoddau a oedd ar gael gan y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Ddeddf Cynllunio, yn benodol adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol. Argymhellodd yr adroddiad y dylai awdurdodau cynllunio lleol baratoi adroddiad perfformiad blynyddol i safon gyffredin, ac y dylid paratoi Adroddiad Perfformiad Cymru Gyfan.

<https://llyw.cymru/tuag-ddeddf-gynllunio-i-gymru-sicrhau-system-gynllunio-effeithiol>


2.5 Ers 2014-2015, lluniwyd adroddiadau perfformiad blynyddol ar berfformiad awdurdodau cynllunio lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru ac Ymgynghoreion Statudol. Atodir y tabl perfformiad cryno diweddaraf yn Atodiad C a gellir gweld yr adroddiad llawn diweddaraf drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-ar-berfformiad-gwasanaethau-cynllunio-2018-hyd-2019>

2.6 Mae'r adroddiad ar gyfer 2018-19 yn cynnwys gwybodaeth bwysig gan awdurdodau cynllunio lleol am y ffordd y maent yn rheoli'r adnoddau sy'n lleihau, a'r effeithiau ar eu gwasanaethau. Mae'r dulliau gweithredu a nodwyd yn cynnwys y canlynol:


- Mae swyddi gwag ymhlith staff yn cael eu gadael yn wag, mae swyddi yn cael eu dileu wrth i bobl ymddeol ac, mewn rhai achosion, mae absenoldebau di-dâl yn cael eu defnyddio i ddod o hyd i arbedion yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir, gyda phwysau difrifol yn ystod cyfnodau o absenoldeb staff.
- Mae swyddogion gorfodi a blaengynllunio yn cael eu hadleoli i dderbyn llwyth achos rheoli datblygu, ac mae rhai awdurdodau yn ystyried defnyddio swyddogion nad ydynt yn gynllunwyr i ymdrin â cheisiadau.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn rhoi gwybod am fylchau mewn arbenigedd oherwydd problemau cadw staff. Mae bylchau sylweddol mewn arbenigedd yn effeithio ar y gwaith o brosesu ceisiadau mawr, a cheir bylchau yn nisgyblaethau gorfodi, cadwraeth a'r dirwedd.
- Mae ymgylgoreion mewnol yn cymryd mwy o amser i ymateb oherwydd y pwysau ar eu hadnoddau eu hunain. Yn benodol, mae rhai Adrannau Prifffyrdd wedi rhoi'r gorau i gyflwyno cyngor cyn cyflwyno cais.
- Mae llawer o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gorfod bod yn greadigol wrth geisio ffrydiau cyllido amgen ac yn codi tâl am wasanaethau er mwyn pontio'r bwch o ran adnoddau, gan gynnwys:
  - Prosesu ceisiadau yn gyflymach am ffi ychwanegol;
  - Mwy o ddibyniaeth ar Gytundebau Perfformiad Cynllunio, oherwydd yr incwm ffioedd ychwanegol a ddarperir ganddynt.
- Yng Ngogledd Cymru, llwyddwyd i gydweithio'n rhagweithiol er mwyn ceisio safoni arferion ar faterion treftadaeth adeiledig a bioamrywiaeth wrth brosesu ceisiadau, ond nid yw hyn yn mynd mor bell â rhannu arbenigedd mewn gwirionedd.

2.7 Un o'r effeithiau amlycaf a welir yn sgil lleihau adnoddau yw'r cynnydd yn yr amser cyfartalog a gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio. Er bod cyfran uwch o geisiadau yn cael penderfyniad "ar amser" nag erioed o'r blaen, mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn destun estyniad cytunedig, yn hytrach na bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflymach. Gall ymgeiswyr wrthod cytuno i estyniad os ydynt yn dymuno gwneud hynny, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos y byddai'n well gan ymgeiswyr gynnal cydberthynas gadarnhaol â'r swyddog cynllunio perthnasol na chymryd y risg o wrthod yr estyniad.



## Yr holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt “ar amser” (gan gynnwys o fewn estyniad cytunedig) – 2013-14 i 2018-19

2.8 Hefyd, ceir amrywiadau sylweddol rhwng yr amser cyfartalog y mae awdurdodau cynllunio lleol yn ei gymryd i benderfynu ar geisiadau cynllunio



## Amser cyfartalog a gymerwyd i benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn diwrnodau, 2013-14 – 2018-19

2.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i fynd i'r afael â heriau o ran capasiti, gallu a chydnerthedd mewn ffordd gynhwysfawr, gan gydnabod atebolrwydd lleol am lefel y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn wedi cynnwys y canlynol:

- Rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar waith i gefnogi cydweithredu;
- Darparu cymorth grant ar gyfer prosiectau cydweithredol;
- Gosod lefelau priodol ar gyfer ffioedd ceisiadau cynllunio, gyda'r nod o symud yn nes at adennill costau llawn;
- Helpu i ddatblygu adnoddau a fydd yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i ddangos y gwerth y mae cynllunio yn ei greu.

2.10 Mae'r Ddeddf Cynllunio yn cynnwys trefniadau manylach ar gyfer gwaith cydweithredol, er mwyn gwella cydnerthedd a chynyddu effeithlonrwydd. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â byrddau cynllunio ar y cyd yn caniatáu i ddau awdurdod cynllunio lleol neu fwy uno eu swyddogaethau cynllunio. Mae hyn yn ategu'r trefniadau presennol i baratoi cynlluniau datblygu lleol ar y cyd. Mae'r gallu i

baratoi cynlluniau datblygu strategol yn caniatáu i faterion trawsffiniol gael eu hystyried yn llawn ac i gynllunio ar eu cyfer, ac yn caniatáu i gynlluniau datblygu lleol, sy'n ddarostyngedig iddynt, gael eu paratoi'n effeithlon. Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi bod yn gyndyn i ddefnyddio'r adnoddau deddfwriaethol sydd ar gael ac eithrio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Yn 2017, gwahoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig 13 awdurdod cynllunio lleol i adolygu eu cynlluniau datblygu lleol er mwyn cyflwyno cynigion i baratoi eu cynlluniau datblygu lleol ar y cyd, lle ceir marchnadoedd tai ac ardaloedd cyflogaeth cyffredin. Gwrthodwyd y gwahoddiad, gan fod yn well gan yr awdurdodau baratoi cynlluniau datblygu lleol unigol, gan gadarnhau y gellid cyflawni hyn o fewn tair blynedd a hanner. Ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth gynllunio benodol, mae deddfwriaeth llywodraeth leol wedi bod yn cael ei datblygu er mwyn mynd i'r afael â materion tebyg. Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn cynnwys cynigion i gyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig, a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol i gydweithredu mewn ffordd ffurfiol. Nodwyd Cynllunio Strategol fel maes cydweithredu penodol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

2.11 Cafodd cydweithredu ei hyrwyddo hefyd drwy ddefnyddio cymorth Grant Llywodraeth Cymru. Mae enghreifftiau diweddar o brosiectau awdurdodau lleol sy'n derbyn cymorth grant yn cynnwys cydweithio yn y Gogledd i safoni arferion ar faterion treftadaeth adeiledig a bioamrywiaeth, a chreu model hyfywedd datblygu safonol ar gyfer awdurdodau yn y De-orllewin, er mwyn llywio cynlluniau datblygu lleol a thrafodaethau ar geisiadau cynllunio. Mae potensial i'r ddau brosiect gael eu defnyddio gan awdurdodau ledled Cymru, gan helpu i lenwi'r bylchau o ran gwybodaeth a chynyddu arbenigedd.

2.12 Daw cyllid gan wasanaethau cynllunio lleol o ddwy brif ffynhonnell:

- cyllid uniongyrchol o incwm corfforaethol yr awdurdod lleol;
- incwm ffioedd sy'n deillio o geisiadau cynllunio.

2.13 Nid yw meysydd sylweddol o weithgarwch awdurdodau cynllunio lleol yn denu incwm ffioedd. Mae'r rhain yn cynnwys penderfynu ar geisiadau Adeiladau Rhestredig a gwaith gorfodi. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae incwm craidd wedi cael ei ategu gan ffioedd am wasanaethau disgresiynol.

2.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau ers 2015 i ddeall y gost o ddarparu gwasanaeth rheoli datblygu yn well, a helpu awdurdodau cynllunio lleol i adennill eu costau. Yn 2015, cododd Llywodraeth Cymru ffioedd ceisiadau cynllunio tua 15%. Roedd y newid hwn yn cyd-fynd â'r newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan y Ddeddf Cynllunio, a'r bwriad oedd helpu awdurdodau cynllunio lleol i adennill costau ychwanegol perthnasol. Ar yr un pryd, gwnaed ymrwymiad i ystyried, ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol, hyfywedd symud tuag at fodel adennill costau llawn ar gyfer ffioedd ceisiadau cynllunio. Yn gyffredinol, mae ffioedd ceisiadau cynllunio ar gyfer ceisiadau mawr yn cyllido'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r cais, ond nid yw'r ffioedd ar gyfer ceisiadau lleol a cheisiadau gan ddeiliaid tai yn gwneud hynny. Mae'r sefyllfa hon yn wahanol i ffioedd Rheoliadau Adeiladu, a bennir yn lleol â'r bwriad o adennill costau llawn. Fodd bynnag, mae gwasanaethau rheoli adeiladu yn destun cystadleuaeth yn y farchnad gan Arolygwyr Cymeradwy'r sector preifat, sy'n golygu bod yn rhaid i unrhyw ffi a bennir fod yn gystadleuol. Mae rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd fod dibyniaeth awdurdodau

cynllunio lleol ar incwm o ffioedd sy'n deillio o geisiadau mawr yn effeithio'n negyddol ar hyder y cyhoedd yng ngwrthrychedd penderfyniadau cynllunio. Mae hyn fwyaf amlwg lle y caiff ceisiadau cynllunio tybiannol eu cymeradwyo yn sgil diffyg cyflenwad o dir ar gyfer tai am 5 mlynedd.

2.15 Yn 2016, rhoddodd Llywodraeth Cymru gymorth grant i CLILC wneud gwaith ymchwil i ystyried y gost o ddarparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Comisiynodd CLILC y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio i gadarnhau costau penodol y gweithgareddau amrywiol sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau cynllunio, a chyfrannodd y mwyafrif o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol at y gwaith hwn. Dangosodd y canlyniadau fod gwahaniaethau sylweddol yn y costau ar gyfer tasgau tebyg rhwng awdurdodau a bod diffygion yn y model ffioedd presennol. Daeth i gasgliad clir fod yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n cael cyfran sylweddol o geisiadau mawr yn nes o lawer at adennill costau llawn am eu gwasanaeth rheoli datblygu, a dangosodd yr ymchwil dystiolaeth i gefnogi tybiaethau blaenorol ynghylch croes-gymhorthdal rhwng ceisiadau mawr a cheisiadau eraill.

2.16 Mae cwmni Arup wedi cael ei gomisiynu i gynnal astudiaeth bellach sy'n datblygu'r gwaith casglu data a wnaed eisoes gan y Gwasanaeth Cynghori ar Gynllunio, a defnyddio'r data a geir i greu model ffioedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r gwaith ymchwil hwn yn parhau ac yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â gweithgor o awdurdodau cynllunio lleol yn y De-ddwyrain. Disgwylir i ganlyniad y gwaith ymchwil hwn, ynghyd â'r model ffioedd arfaethedig, gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2020. Bydd yr amserlenni ar gyfer rhoi'r model newydd a chanfyddiadau'r gwaith ymchwil ar waith yn dibynnu p'un a fydd angen deddfwriaeth sylfaenol ai peidio. Fel mesur dros dro, mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio 20% o'r lefelau yn 2015. Bydd yr ymgynghoriad ar y cynnydd dros dro hwn yn y ffioedd yn dod i ben ar 13 Mawrth 2020. Gan ddibynnu ar yr ymatebion sy'n dod i law, rhagwelir y bydd y ffioedd yn cynyddu erbyn haf 2020. Rydym yn ymwybodol, mewn rhai achosion, fod y cynnydd yn y ffioedd am geisiadau cynllunio yn 2015 wedi cyd-fynd â lleihau'r cyllid canolog i awdurdodau lleol, ac nad oedd unrhyw enillion net i wasanaethau cynllunio. Rydym yn ystyried opsiynau i gynyddu'r tebygolrwydd y caiff unrhyw gynnydd yn ffioedd am geisiadau cynllunio ei gadw a'i ddefnyddio er mwyn gwella capasiti, cydnherthedd a gallu gwasanaethau cynllunio lleol.

2.17 Mae'r system gynllunio yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddefnyddio a'i ddatblygu er budd y cyhoedd. Wrth reoli'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio yn y dyfodol, gall greu gwerth sylweddol i berchnogion tir, a chostau allanol i'r gymdeithas. Dylid defnyddio gwybodaeth am y gwerth y mae cynllunio yn ei greu, a ffyrdd o liniaru'r costau allanol sy'n deillio ohono, er mwyn llywio penderfyniadau ar gyllido gwasanaethau cynllunio yn lleol. Er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth bellach o'r maes hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid grant i'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, er mwyn llunio pecyn cymorth a fydd yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol i amcangyfrif y gwerth y mae cynllunio yn ei greu. Ar gyfer Cymru gyfan, y gwerth amcangyfrifedig a gafodd ei greu gan gynllunio ym mlwyddyn ariannol 2016/17 oedd £2.35 biliwn.

<https://www.rtpi.org.uk/media/2896429/Value-of-Planning-Handout.pdf>

2.18 Yn Lloegr, mae'r adolygiad Annibynnol o ddiogelwch adeiladau (Adolygiad Hackitt) wedi nodi problemau niferus â'r system rheoli adeiladu. Mae wedi cynnig cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer adeiladau risg uchel a fydd yn gofyn am sgiliau mwy cadarn ac ymchwiliadol na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan y rhai sy'n gyfrifol am oruchwyllo rheoliadau adeiladu.

2.19 Yr arwyddion yw bod pob un o'r 22 o awdurdodau rheoli adeiladu a weithredir gan awdurdodau lleol yn dioddef o weithlu sy'n heneiddio. Ar gyfartaledd, rhyw 50% o'r staff technegol sy'n gwbl gymwysedig. Mae recriwtio a chadw staff yn broblem. Yn ddiweddar, mae nifer o awdurdodau wedi ei chael hi'n anodd penodi staff newydd yn lle rhai sydd wedi gadael neu sydd wedi ymddeol, ac mae hynny wedi cael effaith ganlyniadol ar allu.

### **3. Cyflawni cyfrifoldebau o dan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

3.1 Mae'r system gynllunio yn sbardun polisi allweddol i wella cynaliadwyedd datblygu. I ddechrau, cyflawnwyd hyn drwy Adran 39 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004), a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau sy'n llunio cynlluniau ystyried yr amcan o gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy, pan fyddant yn arfer swyddogaethau paratoi Cynllun Gofodol Cymru a chynlluniau datblygu lleol. Yn ymarferol, roedd yr angen i ystyried polisi cynllunio cenedlaethol – sy'n cynnwys polisïau ar ddatblygu cynaliadwy – a'r gofyniad am Arfarniad Amgylcheddol Strategol (gan ymgorffori arfarniad cynaliadwyedd) yn dangos yn effeithiol sut roedd y cynlluniau hynny'n cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy. Yn ei dro, caiff y dull gweithredu hwn ei drosglwyddo i gynlluniau cynllunio unigol, drwy'r gofyniad statudol i benderfyniadau cynllunio gydymffurfio â'r cynllun datblygu, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol.

3.2 Wrth i'r cysyniad o ddatblygu cynaliadwy aeddfedu yng nghyd-destun Cymru, mae'r dull o roi datblygu cynaliadwy ar waith drwy gynllunio wedi aeddfedu hefyd. Datblygwyd y Ddeddf Cynllunio, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd ochr yn ochr â'i gilydd, er mwyn gwneud cysylltiadau effeithiol rhwng y tri darn o ddeddfwriaeth ategol. Mae'r cysylltiad statudol rhwng y system gynllunio a datblygu cynaliadwy wedi cael ei egluro a'i atgyfnerthu gan Adran 2 o'r Ddeddf Cynllunio.



Adran 2 “Datblygu cynaliadwy (1) Mae’r adran hon yn gymwys i arfer gan Weinidogion Cymru, awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru neu unrhyw gorff cyhoeddus arall —

(a) swyddogaeth o dan Ran 6 o DCPhG 2004 mewn perthynas â Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, cynllun datblygu strategol neu gynllun datblygu lleol;

(b) swyddogaeth o dan Ran 3 o DCGTh 1990 mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio a wneir (neu y bwriedir ei wneud) i Weinidogion Cymru neu i awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

**(2) Rhaid arfer y swyddogaeth, fel rhan o ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, at ddiben sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.”**

3.3 Er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cynllunio a'r Ddeddf Llesiant, mae polisi cynllunio wedi cael ei adolygu, a dechreuwyd ar y gwaith o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Cyhoeddwyd fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru yn 2018. Polisi Cynllunio Cymru yw ein datganiad polisi cynllunio cenedlaethol ar ddefnyddio tir. Mae'n dangos i awdurdodau cynllunio lleol ac ymgeiswyr sut y dylai datblygu cynaliadwy, fel y nodwyd gan y Ddeddf Llesiant, lywio'r gwaith o baratoi cynlluniau datblygu statudol (y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol) a cheisiadau cynllunio.

3.4 Mae rhifyn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru yn gosod y cysyniad o ‘greu lleoedd’ wrth wraidd polisi cynllunio cenedlaethol. Creu lleoedd yw datblygu cynaliadwy ar waith. Mae'n gofyn am dull datblygu integredig, sy'n sicrhau y gall cymunedau gael gafael ar yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt yn hawdd, a bod ansawdd dylunio'r gwaith datblygu yn dda. Mae'r egwyddor hon yn symud oddi wrth brosesau lle gwneir dim ond cyfrif tai, er mwyn ystyried canlyniadau ac ansawdd y lleoedd sy'n cael eu creu. Creu lleoedd yw'r dull cyfannol o gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd. Mae'n manteisio ar asedau, ysbrydoliaeth a photensial cymuned leol, â'r bwriad o greu datblygiad sy'n hyrwyddo iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Felly, mae'n integreiddio'n agos ag amcanion ehangach y Ddeddf Llesiant. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r bobl sy'n rhan o'r system gynllunio feddwl am leoedd a llesiant mewn modd cyfannol, yn hytrach na meddwl am y rhain fel polisiâu ar wahân mewn seilos a ddatblygir yn unigol.

3.5 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r fframwaith y dylai awdurdodau lleol (y mae dyletswydd arnynt hefyd i gydymffurfio â'r Ddeddf Llesiant) ei ddefnyddio i roi'r Ddeddf Llesiant ar waith, o ran eu dull o ymdrin â'r polisiâu cynllunio y maent yn eu datblygu, a'r prosesau y maent yn eu defnyddio i lunio'r polisiâu hynny, ac yn y pen draw wneud penderfyniadau yng ngoleuni'r polisiâu ar ôl iddynt gael eu mabwysiadu.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio'n aml at nodau'r Ddeddf Llesiant ac yn cynnwys cyfeiriadau drwy'r testun, gan amlygu lle dangosir y Ffyrdd o Weithio.

3.6 Wrth lunio Polisi Cynllunio Cymru, dilynwyd ffyrdd o weithio'r Ddeddf Llesiant, o ran cydweithredu â rhanddeiliaid i lunio'r fersiwn ddrafft. Gweithiodd y swyddogion yn agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd Sophie Howe, y Comisiynydd:

*“... defnyddiwyd y Ddeddf yn llawn i greu'r polisi o'r diwrnod cyntaf. Defnyddiodd y swyddogion y pum ffordd o weithio, gan geisio sicrhau bod y polisi yn cyfrannu cymaint â phosibl at y nodau. Hoffwn bwysleisio mai hon oedd un o'r enghreifftiau gorau a welwyd gennym hyd yn hyn o ddefnyddio'r Ddeddf i lunio polisi cenedlaethol yng Nghymru ac o ymgysylltu â'm swyddfa.”*

Sophie Howe, Llythyr at y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, 31 Mai 2019

3.7 Mae nodau'r Ddeddf Llesiant a'r Ffyrdd o Weithio hefyd wedi bod yn ganolog i'r gwaith o baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r pum Ffordd o Weithio wedi bod wrth wraidd y ffordd y mae'r gwaith wedi mynd rhagddo hyd yn hyn. Mae cynnwys pobl yn y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn rhan annatod o broses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gwnaed gwaith ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ledled Cymru. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys plant a phobl ifanc a grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r dull ymgysylltu wedi cynnwys y canlynol:

- Gweithdai a sesiynau galw heibio ledled Cymru;
- Anfon cylchlythyrau rheolaidd yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol at 80 o grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig;
- Rhannu gwybodaeth drwy rwydweithiau presennol megis Un Llais Cymru, y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol a rhwydwaith cydgysylltwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Defnydd helaeth o gyfryngau cymdeithasol a gweminarau er mwyn cynyddu ymgysylltiad;
- Gweithio gyda menter Plant yng Nghymru er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc, gan gynnwys ystyried sut i ryngweithio â'r Senedd Ieuenctid newydd;
- Llunio fersiynau hawdd eu deall o'r dogfennau – fersiwn Hawdd ei Darllen a fersiwn gryno i Bobl Ifanc;
- Pecynnau adnoddau addysg ar gyfer ysgolion.

3.8 Mae rhaglen ymgysylltu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn batrwm enghreifftiol y gellid ei efelychu wrth baratoi cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol. Er mwyn rhoi'r dull polisi newydd a argymhellwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar waith yn effeithiol, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol a'r diwydiant datblygu newid eu diwylliant. Mae'r swyddogion wrthi'n gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu siarter *Placemaking Wales*. Bydd y siarter hon yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, cyrff proffesiynol a sefydliadau ambarél i ymrwymo i hyrwyddo'r broses o greu lleoedd drwy eu gwaith. Bydd y grŵp hwn yn cydweithredu i hyrwyddo'r broses o greu lleoedd, gan amlygu arferion da a darparu hyfforddiant a chanllawiau.

3.9 Cafodd y mwyafrif o'r cynlluniau datblygu lleol eu paratoi a'u mabwysiadu cyn y Ddeddf Llesiant. Lle bod adolygiadau o gynlluniau datblygu lleol ar y gweill, mae'n rhaid i'r cynlluniau drafft hynny ddangos tystiolaeth eu bod wedi cael eu llywio gan y nodau llesiant (gan gynnwys nodau llesiant lleol) a'r ffyrdd o weithio. Dylai'r cynlluniau hynny hefyd ystyried y fersiwn newydd o Bolisi Cynllunio Cymru a chydymffurfio â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Caiff cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Llesiant ei hasesu gan Lywodraeth Cymru drwy graffu ar gynlluniau datblygu lleol unigol, yn ogystal ag Arolygydd Cynllunio yn ystod archwiliad annibynnol.

#### **4. Y Ddeddf Llesiant mewn perthynas â chynnwys cymunedau mewn gwaith cynllunio**

4.1 Mae ymgysylltu ac ymgynghori'n effeithiol yn agweddau canolog ar y system gynllunio ac mae deddfwriaeth yn nodi safonau gofynnol i'w dilyn, wrth baratoi cynlluniau datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Ar gyfer cynlluniau datblygu, nodir y gofynion sylfaenol yn Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Nodir rhagor o fanylion yn y rheoliadau ar gyfer cynlluniau datblygu lleol a'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu. Nodir y gofynion ar gyfer rheoli datblygu yn Rhan 3 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Gorchymyn Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, ac mae'r Llawlyfr Rheoli Datblygu yn darparu rhagor o ganllawiau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid craidd i Gymorth Cynllunio Cymru, sef sefydliad trydydd sector â chylch gorchwyl i gynnwys cymunedau yn well yn y system gynllunio.

4.2 Er mwyn sicrhau bod cymunedau yn ymgysylltu'n well â'r broses ceisiadau cynllunio, cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio ofyniad i ymgynghori â'r gymuned cyn cyflwyno cais am ddatblygiad mawr. Diffinnir datblygiad mawr fel datblygiad sydd â 10 tŷ neu fwy, sy'n fwy na 1000 M<sup>2</sup> neu sydd ar safle mwy na 0.5 Ha.

4.3 Mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer gofynion sylfaenol. Anogir awdurdodau cynllunio lleol a'r rhai sy'n gwneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio i ragori ar y gofynion statudol hyn. Hefyd, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol lunio Cynllun Cynnwys y Gymuned wrth baratoi neu adolygu cynllun datblygu lleol. Mae'n rhaid i'r Cynllun hwn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun a'r holl gyfleoedd i'r gymuned gyfrannu at ddatblygiad y cynllun. Gall hyn gynnwys helpu cymunedau lleol i baratoi Cynlluniau Bro ar gyfer eu hardaloedd.

4.4 Mae'r Ddeddf Llesiant yn nodi pum Ffordd o Weithio y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu mabwysiadu. Mae cynnwys pobl yn un o'r pum ffordd o weithio y mae'n rhaid eu dilyn wrth baratoi cynlluniau datblygu neu benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu wedi cael ei pharatoi i ddiweddarau'r cyngor ar gynnwys pobl wrth baratoi cynlluniau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyfrannu at y canllawiau diwygiedig a chyhoeddri fersiwn newydd o'r ddogfen ganllaw "Cynllunio eich Cymuned: Canllaw ar Gynlluniau Datblygu Lleol" yn ddiweddarach eleni.

4.5 Gellid cynnwys y cyhoedd yn well yn y system gynllunio mewn rhai meysydd. Er enghraifft, mae'n glir nad yw llawer o gymunedau nac unigolion yn deall arwyddocâd y cynllun datblygu lleol wrth sefydlu'r egwyddor datblygu. Pan gyflwynir ceisiadau am ganiatâd cynllunio wedyn, gall yr awdurdod cynllunio lleol ond ystyried materion manwl megis dyluniad y cynllun. Mae'r cynllun eisoes wedi sefydlu'r egwyddor datblygu. Gall hyn beri anfodlonrwydd mawr i'r cyhoedd pan gyflwynir ceisiadau cynllunio ac mae'r awdurdod cynllunio leol yn gwrthod gwrthwynebiadau i'r datblygiad oherwydd bod y cynllun datblygu lleol eisoes wedi sefydlu'r egwyddor datblygu. Gellid gwella llawer o'r dulliau traddodiadol a ddefnyddir i hyrwyddo'r gwaith o gynnwys pobl drwy wneud mwy o ddefnydd o adnoddau digidol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Gall y dulliau cyfathrebu hyn hefyd helpu i wella mynediad grwpiau sydd wedi'u heithrio a grwpiau anodd eu cyrraedd at y system gynllunio. Mae gwaith wedi dechrau i ymchwilio i brosiectau posibl i gynnwys pobl yn well yn y system gynllunio.

## 5. Rôl pwyllgorau cynllunio a'u penderfyniadau

5.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i awdurdodau lleol drefnu i'w swyddogaethau, gan gynnwys y pŵer i benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio, gael eu cyflawni gan bwyllgor neu is-bwyllgor neu eu dirprwyo i un o swyddogion yr awdurdod. Darperir y meini prawf sy'n nodi'r rheolau ar gyfer pryd y gellir gwneud penderfyniad dirprwyedig yng nghynllun dirprwyo pob Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau dirprwyo yn caniatáu i aelod lleol ofyn am i'r Pwyllgor Cynllunio benderfynu ar gais yn ei ward (sef "galw'r cais i mewn" i'r Pwyllgor benderfynu arno).

5.2 Dangosodd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Ddeddf Cynllunio fod trefniadau, gweithdrefnau ac arferion dirprwyo pwyllgorau cynllunio yn amrywio'n fawr. Daeth adroddiad y Grŵp Cyngori Annibynnol, a lywiodd y Ddeddf Cynllunio, i'r casgliad bod pwyllgorau cynllunio llai yn debygol o feithrin diwylliant gwell o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth a thystiolaeth. Yn ôl dystiolaeth o astudiaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol o weithrediad Pwyllgorau Cynllunio yng Nghymru yn 2014, po fwyaf y pwyllgor, yr isaf oedd presenoldeb cyfartalog yr Aelodau, a all arwain at ddiffyg parhad o ran aelodaeth, ac anghysondeb o ran gwneud penderfyniadau.

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/planning-committee-operation-study.pdf>


5.3 Yn dilyn yr argymhellion a wnaed gan astudiaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, lluniwyd rheoliadau mewn perthynas â strwythur a gweithrediad pwyllgorau cynllunio:

- Bydd gan y pwyllgor cynllunio isafswm o 11 o aelodau ac uchafswm o 21 o aelodau ond ni chaniateir mwy na 50% o aelodau'r awdurdod (ac eithrio Awdurdodau Parc Cenedlaethol oherwydd bod ganddynt nifer is o aelodau);
- Lle mae gan wardiau fwy nag un aelod etholedig, dim ond un ohonynt a ddylai fod yn rhan o'r pwyllgor cynllunio, er mwyn caniatáu i rai aelodau gyflawni'r rôl o gynrychioli buddiannau'r gymuned leol;
- Cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau (50% o'r pwyllgor);

- Gwahardd y defnydd o ddirprwy aelodau.

5.4 Ochr yn ochr â'r darpariaethau deddfwriaethol, lluniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru Brothocol Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio.

5.5 At ei gilydd, mae'r newidiadau wedi cyflwyno mwy o gysondeb ac effeithiolrwydd o ran y gweithdrefnau a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio, ac wedi cadw atebolrwydd democrataidd lleol ar yr un pryd. Mae hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio tebyg yn yr un ffordd. Er bod mwy o gysondeb, mae rhai awdurdodau yn anghyson wrth wneud penderfyniadau o hyd, yn enwedig o ran gwrthdroi argymhellion swyddogion. Mae argymhellion swyddogion ar geisiadau yn seiliedig ar bolisi a nodir yn y cynllun datblygu mabwysiedig perthnasol. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau gan aelodau sy'n groes i gyngor swyddogion hefyd yn groes i'r cynllun mabwysiedig. Mae'r dull gweithredu hwn yn tansilio hyder y cyhoedd mewn system a arweinir gan gynlluniau. Mae llawer o'r achosion hyn yn ymwneud â chymeradwyo ceisiadau, ac felly ni chânt eu herio mewn apeliadau, oherwydd dim ond yn erbyn achosion o wrthod cydsyniad, neu'r amodau sydd ynghlwm wrth roi cydsyniad y gellir apelio.



**Canran y penderfyniadau gan Bwyllgorau Cynllunio a wnaed yn groes i gyngor swyddogion 2014-15 – 2018-19**

## 6. Casgliad

6.1 Rydym yn croesawu Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae'r Adroddiad yn cadarnhau ein dealltwriaeth bod pwysau sylweddol ar awdurdodau cynllunio lleol o ran capasiti a gallu, ar adeg pan fo gan y cyhoedd a'r gwleidyddion ddisgwyliadau uchel, yn enwedig o ran rhoi'r Ddeddf Llesiant a'r Ddeddf Cynllunio ar waith. Mae'r gallu i gynnal safon dda o wasanaeth, ar adeg pan fo adnoddau wedi lleihau'n ddifrifol yn gyflawniad sylweddol. Yn gorfforaethol, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol wneud mwy i fuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio a'u hatgyfnerthu, drwy sicrhau bod incwm ffioedd yn cael ei gadw gan wasanaeth cynllunio, a mynd ati'n fwy egniol nag erioed i ystyried y cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ffurfiol sy'n deillio o'r darpariaethau ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau, a darpariaethau'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol.

## **Atodiad A: Prif elfennau'r system gynllunio**

### ***Cynlluniau datblygu***

A.1 Ers Deddf Cynllunio a Digolledu 1991, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ac apeliadau yn unol â'r cynllun datblygu, oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi'n wahanol – y system a arweinir gan gynlluniau. Mae'r system a arweinir gan gynlluniau yn darparu sicrwydd ynghylch y datblygiadau a fydd yn dderbyniol mewn unrhyw leoliad penodol, a'r rhai na fyddant yn dderbyniol.

A.2 Ehangodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf Cynllunio) ddiffiniad y cynllun datblygu i gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cynlluniau datblygu strategol a chynlluniau datblygu lleol.

### Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

A.3 Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r gynrychiolaeth ofodol o bolisi Llywodraeth Cymru. Caiff ei baratoi gan Weinidogion Cymru, gan gyfuno polisi'r Llywodraeth â goblygiadau gofodol mewn un ddogfen. Pan gaiff ei gymeradwyo, bydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Ymgynghorwyd ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn 2019. Bydd y Senedd yn craffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a chaiff ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn ddiweddarach yn 2020. Mae cysylltiad agos rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Pholisi Cynllunio Cymru, gan adlewyrchu'r dull o ymdrin â datblygu cynaliadwy drwy greu lleoedd, a'r saith nod a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (y Ddeddf Llesiant).

### Cynlluniau Datblygu Strategol

A.4 Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio gynlluniau datblygu strategol er mwyn ymdrin yn effeithiol â materion ehangach na rhai lleol, gan fynd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol. Bydd cynlluniau datblygu strategol yn disgrifio'r sefyllfa a'r cyd-destun polisi ar gyfer cynlluniau datblygu lleol. Byddant yn dilyn proses debyg i gynlluniau datblygu lleol, gan gynnwys ymgymryd â phroses graffu gan Arolygydd annibynnol drwy archwiliad cyhoeddus. Mae'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn cynnwys darpariaethau i orchymyn Cyd-bwyllgorau Corfforedig i baratoi cynlluniau datblygu strategol.

### Cynlluniau Datblygu Lleol

A.5 Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau cynllunio lleol i baratoi cynlluniau datblygu lleol, sy'n sefydlu'r prif fframwaith ar gyfer datblygu yn eu hardaloedd, ac yn nodi'r polisiâu a ddefnyddir i farnu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Drwy statud, mae'n rhaid iddynt gyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy, ac ystyried Cynllun Gofodol Cymru (nes i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ei ddisodli) a'r cynllun datblygu lleol. Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu Cynllun Cynnwys y Gymuned ar ddechrau'r broses o baratoi cynllun datblygu lleol, gan ystyried cwrpas ac amseriad gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, ochr yn ochr ag amserlen ar gyfer paratoi'r cynllun. Mabwysiadwyd 22 o'r 24 o gynlluniau datblygu lleol, gyda Chynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn rhannu cynllun datblygu lleol ar y cyd, ac mae cynllun arall ar y cam archwilio, gan olygu mai Cyngor Sir y Fflint yw'r unig gyngor sydd heb gyrraedd y cam hwn eto. Mae dau awdurdod – Eryri a Merthyr Tudful – wedi cwblhau adolygiadau o gynlluniau datblygu lleol yn ddiweddar. Mae 11 o awdurdodau wrthi'n adolygu eu cynllun am y tro cyntaf.

## ***Rheoli datblygu***

A.6 Mae rheoli datblygu yn darparu'r strategaeth defnydd tir a nodir yn y cynllun datblygu, gan ddefnyddio egwyddor sy'n ganolog i'r system gynllunio – sef bod caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer “datblygu”.

A.7 Diffinnir “datblygu” yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel:

cyflawni gweithrediadau adeiladu, peirianeg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill mewn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid perthnasol i'r defnydd a wneir o unrhyw adeilad neu dir arall.

A.8 Mae natur eang y diffiniad o ddatblygu yn golygu bod caniatâd cynllunio yn ofynnol ar gyfer popeth o'r maes awyr mwyaf i'r ffens ardd neu batïo lleiaf. Mae datblygiadau sydd angen caniatâd yn perthyn i un o bedwar categori, gan ddibynnu ar faint, cymhlethdod ac effaith bosibl:

- Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Datblygiadau Mawr
- Datblygiadau Lleol
- Datblygiadau a Ganiateir

### Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

A.9 Mae'r ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Cynllunio 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar brosiectau seilwaith mawr. Mae darpariaethau'r Ddeddf Cynllunio, a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig, yn sefydlu'r broses ar gyfer cydsynio i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn cynnwys prosiectau ynni â'r capasiti i gynhyrchu rhwng 10MW a 350MW, pob achos o gynhyrchu gwynt ar y tir uwchlaw 10MW, seilwaith rheilffyrdd, argaeau a chronfeydd dŵr.

### Datblygiadau Mawr a Lleol

A.10 Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio am ddatblygiadau mawr a lleol. Ceisiadau am ddatblygiadau mawr yw tua 3% o'r holl geisiadau. O ystyried eu pwysigrwydd i'r economi a'r cyhoedd yn gyffredinol, cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais ar gyfer datblygiadau mawr fel rhan o strategaeth i sicrhau y caiff safon dda o ddyllunio ei hymgorffori mewn ceisiadau cynllunio o'r fath mor gynnar â phosibl yn y broses. Y bwriadu yw osgoi oedi'r broses o wneud penderfyniadau yn ddiweddarach. At ei gilydd, ymdrinnir â cheisiadau am ddatblygiadau lleol yn yr un ffordd â cheisiadau am ddatblygiadau mawr. Ceisiadau gan ddeiliaid tai i wella eu cartrefi yw o leiaf traean o'r holl geisiadau.



### Datblygiadau a Ganiateir

A.11 Nid yw'n ofynnol cael cydsyniad cynllunio penodol ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau megis estyniad cymharol fach i dŷ, neu newid dros dro i ddefnydd tir. Byddai ei gwneud yn ofynnol i gais cynllunio gael ei gyflwyno yn gwastraffu adnoddau o ystyried effeithiau cynllunio cyfyngedig datblygiad o'r fath, ac felly mae Gweinidogion Cymru yn rhoi caniatâd cynllunio cyffredinol, a nodir ar hyn o bryd yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Cyfeirir at ganiatâd o'r fath yn aml fel "hawliau datblygu a ganiateir". Ar gyfer rhai hawliau datblygu a ganiateir, megis cyfarpar telegyfathrebu neu adeiladau fferm, mae'n rhaid i'r datblygwr hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol am ei fwriad i adeiladu. Yna gall yr awdurdod fynnu ystyried manylion penodol megis lleoliad neu ymddangosiad – proses y cyfeirir ati fel "cymeradwyaeth ymlaen llaw". Mae gan awdurdodau'r pŵer hefyd i ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir drwy ddefnyddio Cyfarwyddyd Erthygl 4.

### **Gorfodi**

A.12 Lle gwnaed gwaith datblygu heb ganiatâd cynllunio gofynnol, gall awdurdodau cynllunio lleol gymryd camau gorfodi. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddisgresiwn i benderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi, ond dylent wneud hynny pan fydd o fudd ehangach i'r cyhoedd. Mae amrywiaeth o bwerau gorfodi ar gael i awdurdodau cynllunio lleol. Mae methu â chydymffurfio â champau gorfodi yn drosedd. Cyflwynodd y Ddeddf Cynllunio fesurau i ddileu cyfleoedd i oedi camau gorfodi.

## **Atodiad B: Prif elfennau'r system rheoli adeiladu**

B.1 Mae'r rheoliadau adeiladu yn ymdrin â'r gofynion gweithdrefnol cyn dechrau gwaith adeiladu a gofynion perfformiad gweithredol adeiladau a gwblhawyd er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch, lles a chyfleustra pobl mewn adeiladau ac o'u cwmpas a chadwraeth dŵr, tanwydd a phŵer.

B.2 Cyrff Rheoli Adeiladu sy'n gweinyddu'r rheoliadau adeiladu. Gall naill ai'r sector cyhoeddus (h.y. cyngor lleol) neu gwmni preifat weithredu Cyrff Rheoli Adeiladu. Mae gwasanaethau rheoli adeiladu a gynhelir gan gynghorau yn gweithredu o dan y term cyffredinol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol. Mae cwmnïau preifat yn gweithredu o dan y term cyffredinol Arolygydd Cymeradwy. Dim ond awdurdodau lleol sy'n gorfodi'r rheoliadau adeiladu (h.y. pan aiff pethau o chwith). Nid oes gan Arolygwyr Cymeradwy unrhyw bwerau gorfodi.

B.3 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol adennill eu costau wrth weinyddu'r rheoliadau adeiladu drwy godi ffioedd yn unol â'r Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol). Mae'n ofynnol i'r taliadau gael eu cyhoeddi ac ni ddylent greu gwagedd dros gyfnod o dair blynedd. Gall Arolygwyr Cymeradwy ddewis eu dulliau eu hunain o godi tâl ac nid yw'n ofynnol iddynt eu cyhoeddi.

B.4 Mae'r system rheoli adeiladu, ar gyfer awdurdod lleol, yn gysyniad llawer ehangach na chydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu, ac mae'n cynnwys llawer o swyddogaethau eraill a gyflawnir gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag adeiladau, diogelwch adeiladau a diogelwch cyhoeddus yn fwy cyffredinol, e.e. cymryd camau gorfodi ynghylch gwaith adeiladu anawdurdodig, strwythurau peryglus, cyngor ar y Ddeddf Waliau Cydrannol ac anghydfodau rhwng cymdogion. Yn ogystal, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni swyddogaethau gweinyddol mewn perthynas â rolau Arolygwyr Cymeradwy, e.e. cofrestru hysbysiadau cychwynnol ac ymdrin ag ymholiadau sy'n gysylltiedig â nhw a chadw cofrestr gybodaeth gyhoeddus. Ni ellir codi tâl am y swyddogaethau hyn.

Atodiad C

SIART Y FFRAMWAITH PERFFORMIAD CYNLLUNIO - EBRILL 2018 I MAWRTH 2019

Fersiwn: 3

Dyddiad: 15/07/2019

DANGOSYDD	DDA	TEG	GWELLA	CYFARTELEDD/ CYFANSWM CYMRU	Blairau Gwent	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Pen-y-bont ar Ogwr	Caerfili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Flint	Gwynedd	Ynys Môn	Merthyr Tydfil	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Caernewydd	Sir Benfro	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Parc Cenedlaethol Eryri	Abertawe	Torfaen	Bro Morgannwg	Wrecsam	
<b>Gwneud Cynlluniau</b>																														
A oes Cynllun Datblygu cyfredol sydd o fewn cyfnod y cynllun?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes
Y gwyrriad, wrth baratoi CDLI, oddi wrth y dyddiadau a nodwyd yn y Cytundeb Cyflenwi gwreiddiol, mewn misoedd	<12	13-17	18+	73										34																111
Mewn misoedd, yr amser a gymerwyd i ddechrau adolygiad ffurfiol o CDLI yn dilyn sbarduno Rheoliad 41	<12	13-17	18+	16	23	10	10	65	2	-5	15	7	12				16	2	2	13	16	23		59	13		7			
Oes Cytundeb Cyflawni ar gyfer Adolygu'r CDLI wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a chytunwyd arno?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes		Oes	Oes	Oes	Oes				Oes				Oes	Oes		Nac oes	Oes		Oes			
Mewn misoedd, gwyrriad o'r dyddiadau a bennir yn y Cytundeb Cyflawni gwreiddiol i adolygu'r CDLI	<3		4+	1		1				0	1	1	3				0				1	0							-1	
Adroddiadau Monitro Blynyddol wedi'u cynhyrchu yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	le		Na	le	le	le	le	le	le	le	le	le	le				le	le	le	le	le	le		le	le		le			
Cyflenwad tir ar gyfer tai'r awdurdod cynllunio lleol ar hyn o bryd mewn blynyddoedd	5+		<5	6	1.3	3.9	3.4	2.3	3.5	3.8	2.2	3.1	1.6	0.0	6.3	6.3	1.1	3.9	5.0	5.6	4.5	1.4	7.0	1.4	3.0	0.0	3.9	5.6	0.0	
<b>Effeithlonrwydd</b>																														
Canran y ceisiadau "mawr" a gafodd eu pennu o fewn cyfnodau amser gofynnol	60+	50.1-59.9	<50	67.8	100.0	100.0	38.1	16.7	86.7	39.1	65.2	60.0	93.8	35.3	33.3	55.0	100.0	88.9	75.0	77.3	36.4	100.0	84.1	46.2	0.0	88.4	76.9	81.0	87.0	
				326 o 481	10 o 10	5 o 5	8 o 21	3 o 18	39 o 45	9 o 23	15 o 23	9 o 15	15 o 16	12 o 34	3 o 9	11 o 20	9 o 9	8 o 9	6 o 8	17 o 22	4 o 11	9 o 9	37 o 44	12 o 26	0 o 4	38 o 43	10 o 13	17 o 21	20 o 23	
Amser ar gyfartaledd a gymerir i benderfynu ar geisiadau "mawr" mewn diwrnodau				231.8	138.5	251.0	254.5	161.3	160.3	455.8	125.8	113.0	129.3	263.5	136.5	228.3	62.8	65.8	852.0	209.0	150.8	224.0	528.3	127.3	457.3	132.6	164.4	155.8	281.8	
Canran yr holl geisiadau a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	80+	70.1-79.9	<70	88.1	97.3	98.8	80.0	86.4	90.9	72.6	72.9	90.2	91.6	79.3	85.4	80.9	99.7	88.4	96.7	87.5	87.0	90.0	90.7	91.2	75.7	98.5	86.6	91.2	92.3	
				20871 o 23687	286 o 294	575 o 582	702 o 878	748 o 866	2309 o 2541	886 o 1221	652 o 894	798 o 885	844 o 921	809 o 1020	809 o 947	651 o 805	329 o 330	973 o 1101	734 o 759	819 o 936	777 o 893	450 o 500	1091 o 1203	1052 o 1154	331 o 437	1873 o 1901	472 o 545	1114 o 1221	787 o 853	
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar yr holl geisiadau mewn diwrnodau	<67	67-111	112+	77.2	70.8	62.3	72.5	71.0	67.3	106.3	95.3	62.0	62.0	93.8	65.3	84.0	49.5	86.3	70.5	80.0	58.8	69.0	161.5	74.7	66.8	57.2	91.9	70.0	82.0	
Canran yr geisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol	80+	70.1-79.9	<70	74.7	100.0	100.0	62.5	73.7	87.7	66.0	61.1	92.5	69.4	35.0	66.7	71.4	100.0	88.6	100.0	75.0	24.1	100.0	81.0	27.3	56.0	83.3	71.4	71.4	96.4	
				582 o 779	1 o 1	43 o 43	10 o 16	14 o 19	50 o 57	31 o 47	33 o 54	37 o 40	25 o 36	7 o 20	40 o 60	25 o 35	6 o 6	70 o 79	4 o 4	21 o 28	7 o 29	18 o 18	51 o 63	3 o 11	14 o 25	15 o 18	5 o 7	25 o 35	27 o 28	
<b>Ansawdd</b>																														
Canran y ceisiadau y penderfynwyd arnynt o dan bwerau datganoledig				94.5	90.5	98.1	96.4	92.3	98.0	93.6	93.4	96.7	94.4	95.8	92.9	90.6	95.5	95.5	97.9	93.2	95.9	94.8	93.9	88.9	95.4	95.8	95.0	97.1	82.9	
Canran y penderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn groes i gyngor swyddogion	<5	5-9	9+	9.2	28.6	0.0	0.0	6.0	1.9	11.5	55.9	3.4	7.7	20.9	10.4	7.9	0.0	0.0	6.3	3.1	0.0	3.8	2.7	4.7	5.0	6.3	0.0	5.7	13.0	
				121 o 1310	8 o 28	0 o 11	0 o 32	4 o 67	1 o 52	9 o 78	33 o 59	1 o 29	4 o 52	9 o 43	7 o 67	6 o 76	0 o 15	0 o 50	1 o 16	2 o 64	0 o 37	1 o 26	2 o 73	6 o 128	1 o 20	5 o 79	0 o 27	2 o 35	19 o 146	
Canran yr apeladau a gafodd eu gwrthod	66+	55.1-65.9	<55	67.7	63.6	33.3	75.0	75.0	68.4	71.4	50.0	58.8	60.0	55.0	68.2	73.7	71.4	46.2	61.5	72.7	61.5	100.0	72.2	66.7	60.0	71.6	90.9	71.4	50.0	
				360 o 532	7 o 11	1 o 3	18 o 24	12 o 16	39 o 57	15 o 21	4 o 8	10 o 17	6 o 10	11 o 20	15 o 22	14 o 19	5 o 7	6 o 13	8 o 13	24 o 33	8 o 13	6 o 6	13 o 18	24 o 36	3 o 5	68 o 95	10 o 11	20 o 28	13 o 26	
Ceisiadau am gostau mewn apêl Adran 78 a gafodd eu cadarnhau yn y cyfnod adrodd	0	1	2+	0	1	0	0	1	4	1	0	1	0	0	1	1	0	0	0	1	0	0	1	0	0	0	0	0	2	
<b>Ymgysylltu</b>																														
A yw'r awdurdod cynllunio lleol yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Cynllunio?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes
A oes gan yr awdurdod cynllunio lleol swyddog ar ddyletswydd i roi cyngor i aelodau'r cyhoedd?	Oes		Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes
A oes gan wefan yr awdurdod cynllunio lleol gofrestr ar-lein o geisiadau cynllunio sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd oirhain cynnydd y ceisiadau (a gweld eu cynnwys)?	Oes	Rhan-nol	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Rhan-nol	Oes	Oes	Oes	Oes	Nac oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Rhan-nol	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes	Oes
<b>Gorfodi</b>																														
Canran yr achosion gorfodi a gafodd eu hymchwilio (penderfynwyd a oedd torri rheolau cynllunio wedi digwydd ac, os felly, penderfynwyd a oedd camau gorfodi yn addas) o fewn 84 diwrnod	80+	70.1-79.9	<70	76.9	97.4	76.4	86.9	92.5	99.5	51.8	99.5	88.1	75.0	62.7	76.5	22.6	78.9	64.5	99.0	82.7	53.6	80.5	85.2	71.1	88.7	72.0	89.3	81.7	77.0	
Amser ar gyfartaledd a gymerwyd i gymryd camau gorfodi cadarnhaol	<100	101-200	200+	166.7	282.3	294.3	21.3	227.5	7.3	Dim Data	531.5	170.3	147.8	120.3	131.5	197.8	48.5	232.1	136.0	180.8	249.0	331.8	122.0	58.0	198.0	73.0	46.5	76.0	82.0	

Tudalen y pecyn 41

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**  
**Cyllid y GIG**  
**Sesiwn Graffu Llywodraeth Cymru – 9 Mawrth 2020**

**Papur tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**CYFLWYNIAD**

Darparodd Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer buddsoddiad cynyddol o fwy na £500 miliwn mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda bron i £200 miliwn wedi'i ddyrannu i gefnogi camau gweithredu i roi'r weledigaeth a nodwyd yn Cymru lachach ar waith. Darparodd y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol gyllid ychwanegol ar gyfer pwysau a blaenoriaethau penodol, a'r mwyaf sylweddol o'u plith oedd £170 miliwn ychwanegol yn y Gyllideb Atodol Gyntaf tuag at gostau cynyddol cyfraniadau cyflogwyr at Gynllun Pensiwn y GIG.

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor am y rhagolygon ariannol ar gyfer sefydliadau GIG Cymru yn 2019-20, a'r ffactorau cynllunio a pherfformiad sy'n effeithio ar y sefyllfa ariannol. Mae hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff y buddsoddiad ychwanegol ei ddefnyddio yn ystod y flwyddyn gyfredol, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad o Ddyraniad Adnoddau'r GIG.

**CYNLLUNIAU TYMOR CANOLIG INTEGREDIG**

**Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2019-20**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ym mis Gorffennaf 2019, cadarnheais fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer saith sefydliad a oedd yn berthnasol i flynyddoedd ariannol 2019-20 i 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, gan gyfrannu at y penderfyniad i isgyfeirio'r sefydliad i'r lefel isaf o ran goruchwyliaeth ac ymyriad gan y Llywodraeth.

Methodd tri bwrdd iechyd â chyflwyno CTClau yr oedd modd eu cymeradwyo ar gyfer y cyfnod hwn. Datblygodd BIP Hywel Dda Gynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20. Datblygodd BIPau Bae Abertawe a Betsi Cadwaladr gynlluniau drafft a ystyriwyd gan eu Byrddau, ond nid oedd modd cwblhau'r cynlluniau hyn o ganlyniad i heriau parhaus sylweddol mewn perthynas â pherfformiad a chyllid. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi cymorth i'r tri sefydliad, gan fonitro eu sefyllfa

drwy gyfarfodydd rheolaidd y timau Ansawdd a Chyflenwi, Ymyriadau wedi'u Targedu/Mesurau Arbennig a'r Tîm Gweithredol ar y Cyd.

### **Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer 2020 i 2023**

Cyhoeddwyd Fframwaith Cynllunio'r GIG ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 2020-21 i 2022-23 ym mis Medi 2019, ar y cyd â CTCI Cenedlaethol. Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Gweinidog, yn ogystal â'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r cylch cynllunio blaenorol. Cyflwynodd sefydliadau'r GIG eu cynlluniau wedi'u cymeradwyo gan y byrddau i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Ionawr 2020, ac mae'r cynlluniau hyn wrthi'n cael eu hadolygu fel rhan o'r broses sicrhau flynyddol arferol.

Mae'r tri bwrdd iechyd a fethodd â datblygu CTClau yr oedd modd eu cymeradwyo yn 2019-2020 unwaith eto'n datblygu Cynlluniau Blynyddol ar gyfer 2020-21, a gaiff eu hystyried gan eu Bwrdd ym mis Mawrth. Cyhoeddwyd canllawiau cynllunio wedi'u teilwra'n benodol i bob un o'r sefydliadau eleni i'w helpu i ddatblygu eu cynlluniau, gan nodi eu hamgylchiadau penodol. Mae'r canllawiau wedi'u teilwra'n benodol yn ategu Fframwaith Cynllunio'r GIG ac yn anelu at egluro'r gofynion a'r disgwyliadau ar gyfer pob bwrdd iechyd.

### **CYLLID Y GIG**

#### **Rhagolygon Ariannol 2019-20**

Ein huchelgais ar gyfer 2019-20 oedd gallu dangos gwelliant perthnasol yn iechyd ariannol sylfaenol sefydliadau'r GIG yng Nghymru, a chyfyngu unrhyw ddiffygion a oedd yn weddill i'r ddau sefydliad sy'n wynebu'r heriau ariannol mwyaf sylweddol – Byrddau Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Hywel Dda. Adlewyrchwyd yr uchelgais hwn drwy'r cynnydd a wneir wrth ddatblygu cynlluniau'r GIG, gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llwyddo i gadarnhau ei fod wedi cymeradwyo saith Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) a oedd yn mantoli'r gyllideb ar gyfer y cyfnod rhwng 2019 a 2022. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo BIP Caerdydd a'r Fro am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, gan gyfrannu at y penderfyniad i isgyfeirio'r sefydliad i'r lefel isaf o ran goruchwyliaeth ac ymyriad gan y Llywodraeth.

Ar ddiwedd mis Ionawr 2020, mae'r saith sefydliad y cymeradwywyd CTCI ar eu cyfer yn rhagweld y byddant yn cyflawni alldro wedi'i fantoli ar ddiwedd 2019-20. Yn ogystal, mae Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) a luniodd gynllun blwyddyn ar gyfer 2019-20 yn unol â'i drefniadau sefydlu, hefyd yn rhagweld alldro wedi'i fantoli. Felly disgwyliwn y bydd wyth sefydliad yn mantoli'r gyllideb. Fodd bynnag, mae'r tri

bwrdd iechyd sy'n weddill – Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Bae Abertawe – yn rhagweld diffyg alldro cyfun o £92.3 miliwn ar gyfer 2019-20. Ceir manylion rhagolygon 2019-20 o gymharu ag alldro 2018-19 yn y tabl isod:

Sefydliad	Alldro 2018-19 £m	Gwarged / (diffyg) a ragwelir ar gyfer 2019-20 £m	Gwelliant / (Dirywiad) yn 2019-20 £m
<b>Byrddau Iechyd:</b>			
Aneurin Bevan	0.0	0.0	0.0
Betsi Cadwaladr	(41.3)	(41.0)	0.3
Caerdydd a'r Fro	(9.9)	0.0	9.9
Cwm Taf Morgannwg	0.0	0.0	0.0
Hywel Dda	(35.4)	(35.0)	0.4
Powys	0.0	0.0	0.0
Bae Abertawe	(9.9)	(16.3)	(6.4)
<b>Ymddiriedolaethau'r GIG</b>			
Iechyd Cyhoeddus Cymru	0.0	0.0	0.0
Felindre	0.0	0.0	0.0
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	0.0	0.0	0.0
<b>AaGIC</b>	0.0	0.0	0.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>(96.5)</b>	<b>(92.3)</b>	<b>4.2</b>

Mae'r alldro net cyffredinol cyfredol a ragwelir ar gyfer y GIG ar gyfer 2019-20 rywfaint yn well nag alldro 2018-19. Ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (o gymharu â'i sefydliad rhagflaenol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg), mae pob sefydliad yn rhagweld y bydd wedi cynnal neu wedi gwella ei alldro ar gyfer 2018-19. Rydym yn disgwyl y caiff cyllideb gyffredinol y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei mantoli.

### Ymyriadau a Chymorth Ariannol

Er gwaethaf y gwelliant cyffredinol, rydym wedi parhau i ddarparu her a chymorth uniongyrchol i'r tri sefydliad lle ceir diffygion ariannol o hyd. O dan oruchwyliaeth yr Uned Cyflenwi Cyllid, comisiynwyd ymyriadau cynllunio ariannol a chymorth cyflawni gan ymgynghorwyr allanol ar gyfer y tri sefydliad hyn. Nod y tri ymyriad oedd sicrhau

bod camau yn cael eu cymryd i gyflawni yn erbyn eu cynlluniau ar gyfer 2019-20, a sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd yn cael eu creu i gyflawni arbedion yn y dyfodol.

Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r tri ymyriad, sydd o bosibl hefyd yn berthnasol i fyrddau iechyd eraill ac i'r ymddiriedolaethau, yw'r angen i sicrhau rheolaeth ariannol gadarnach o fewn sefydliadau. Dylai hyn gynnwys y canlynol:

- Sicrhau proses ffurfiol o gymeradwyo'r cynllun ar gyfer y gyllideb gan y Bwrdd, wedi'i dilyn gan broses gadarn o ddirprwyo i ddeiliaid cyllidebau a sicrhau eu bod yn atebol am gyflawni;
- Polisi priodol ar gyfer dal a rheoli cronfeydd wrth gefn;
- Fframwaith perfformiad ariannol cadarn er mwyn gallu nodi amrywiadau a'u huwchgwyfeirio er mwyn gallu eu rheoli'n effeithlon;
- Sicrhau bod yr arferion gorau ar waith o ran cyflwyno adroddiadau i'r byrddau.

Mae'r Uned Cyflenwi Cyllid wedi cyflwyno'r canfyddiadau hyn i Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG sydd wedi cydnabod bod angen adolygu'r systemau yn eu priod sefydliadau er mwyn sicrhau bod system rheolaeth ariannol gadarn ar waith a bod y sefydliadau'n cydymffurfio â'r system hon. Yn ogystal, mae'r Gyfarwyddwyr Cyllid hefyd yn ailwampio'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n elfen graidd o gyfundrefn llywodraethu ariannol pob sefydliad.

## **Academi Gyllid y GIG**

Mae Academi Gyllid GIG Cymru yn deillio o drefniant cydweithio gwirfoddol rhwng pob Gyfarwyddwr Cyllid a'i dimau ym mhob rhan o GIG Cymru, sef cyfanswm o tua 760 o aelodau o staff, a'i huchelgais gyfunol yw gwella sgiliau'r swyddogaeth gyllid a'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i sefydliadau ym mhob rhan o GIG Cymru. Ethos yr Academi yw bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn adrannau Cyllid GIG Cymru yn "aelod" o'r Academi ac yn chwarae rhan hanfodol wrth wella eu hunain a'r swyddogaeth gyllid, a thrwy hynny, wella gwasanaethau i gleifion. Mae wedi datgan uchelgais, sef sicrhau mai hi yw'r "Gorau i Gymru ond y gellir ei gymharu â'r gorau yn unrhyw le."

Mae enghreifftiau o raglen waith yr Academi yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu rhaglen Llwybr Talent, gan dargedu cymorth datblygu mewn ffordd ragweithiol tuag at dalent arwain ariannol cyfredol a thalent arwain ariannol y dyfodol ym mhob rhan o'r llwybr gyrfa o fewn adrannau Cyllid y GIG - o hyfforddeion graddedig i Gyfarwyddwyr Cyllid. Hyd yn hyn, recriwtiwyd 90 o aelodau o staff i'n rhaglenni, ac o ganlyniad, mae sawl un ohonynt wedi cael swyddi arwain newydd mewn amrywiol rannau o GIG Cymru, gan gynnwys swyddi Gyfarwyddwyr Cyllid.



- Cydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gynnig cyfleoedd datblygu ym maes cyllid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys sefydlu digwyddiad sector cyhoeddus cenedlaethol blynyddol i fyfyrwyr cyllid a lansio rhaglen prentisiaethau cyllid yn y sector cyhoeddus o fis Medi 2020 wedi'i thargedu at bobl ifanc 16-18 oed.
- Datblygu Strategaeth Ddigidol genedlaethol ar gyfer Cyllid sy'n canolbwyntio ar roboteg, dadansoddi rhagfynegiadol, Deallusrwydd Artiffisial a gwireddu buddiannau MS 365.
- Cydweithio â rhaglen Enghreifftiol Bevan Comisiwn Bevan, gan ddarparu partneriaid cyllid i gefnogi 132 o brosiectau enghreifftiol yn ystod y pedair blynedd diwethaf, gan roi'r cyfle i staff cyllid weithio gyda chlinigydd arloesol a chael budd o'r rhaglen ddatblygu Enghreifftiol.
- Chwarae rhan arweiniol wrth sefydlu'r "Ford Gron o Academiâu Cyllid" â sefydliadau fel Rolls-Royce, BAE, GSK a'r Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn dysgu ar y cyd sut y dylid bwrw ati i ddatblygu staff cyllid ar draws sectorau. Cynhaliodd GIG Cymru y ford gron ym mis Gorffennaf 2019.
- Cydweithio â Chyfarwyddwyr Meddygol i sefydlu rhaglen datblygu clinigol ac ariannol ar y cyd, wedi'i hachredu gan y Gyfadran Arweinyddiaeth a Rheolaeth Feddygol gan ganolbwyntio ar roi gofal iechyd yn seiliedig ar werthoedd ar waith. Hyd yn hyn, mae 11 pâr o glinigwyr a staff cyllid wedi cwblhau ein rhaglen ac wedi rhoi dull gofal iechyd yn seiliedig ar werthoedd ar waith yn eu meysydd gwasanaeth.
- Cydweithio â Phrifysgolion a darparwyr Addysg eraill i gyflwyno agweddau addysgol ar ein rhaglen, gan gynnwys y rhaglen Addysg Weithredol i Ddarpar Uwch-arweinwyr Cyllid a Chyfarwyddwyr Cyllid.

Mae'r Academi wedi cael cydnabyddiaeth am ei gwaith drwy ennill y gwobrau canlynol:

- Gwobr Arwain Cymru 2018 am "Ysbrydoli Arweinyddiaeth Wych"
- Gwobr Cyllid Cyhoeddus 2019 am "Fenter Hyfforddi a Datblygu Cyllid" (ledled y DU / pob rhan o'r sector cyhoeddus)
- Gwobr Cyllid Cyhoeddus Cymru 2019 – Tîm y Flwyddyn (ar gyfer tîm Rhaglen yr Academi Gyllid)

### **Dyraniad Adnoddau'r GIG**

Mae'r Pwyllgor wedi argymhell yn flaenorol y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau ei hadolygiad o'r fformiwla cyllido ar gyfer byrddau iechyd er mwyn sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau cyllido yn adlewyrchu gwahaniaethau o ran anghenion iechyd y boblogaeth a phenderfynyddion eraill sy'n gysylltiedig â chostau gofal iechyd yn briodol. Mae diweddariadau blaenorol wedi disgrifio'r gwaith sy'n mynd rhagddo i roi'r argymhelliad hwn ar waith. Goruchwyliwyd y gwaith gan Grŵp

Cynghori Technegol, sy'n cynnwys uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r GIG, yn ogystal â chyngor economaidd arbenigol annibynnol.

Cwblhawyd y gwaith i ddatblygu'r fformiwla i'w chymhwyso at y dyraniad dewisol o £4.9 biliwn ar gyfer ysbytai a byrddau iechyd cymunedol hydref diwethaf, ac fe'i defnyddiwyd bellach i ddsbarthu £110 miliwn o gyllid twf ychwanegol ar gyfer 2020-21. Mae'r tabl canlynol yn nodi'r cyfrannau dyraniadau newydd ar gyfer pob bwrdd iechyd ac yn eu cymharu â'u cyfrannau o'r boblogaeth er mwyn darparu mynegai o angen cymharol:

	<b>Cyfran o'r boblogaeth</b>	<b>Cyfran o'r fformiwla</b>	<b>Mynegai</b>
<b>Aneurin Bevan</b>	18.80%	18.95%	1.008
<b>Betsi Cadwaladr</b>	22.23%	22.38%	1.007
<b>Caerdydd a'r Fro</b>	15.95%	13.50%	0.846
<b>Cwm Taf Morgannwg</b>	14.16%	15.13%	1.068
<b>Hywel Dda</b>	12.26%	12.90%	1.052
<b>Powys</b>	4.18%	4.17%	0.996
<b>Bae Abertawe</b>	12.41%	12.97%	1.045
<b>Cyfanswm</b>	<b>100.00%</b>	<b>100.00%</b>	

Mae'r gwaith i ddatblygu a mireinio'r fformiwla yn parhau yn ystod 2020-21 wedi'i oruchwylio gan y Grŵp Cynghori Technegol. Rydym bellach yn ystyried ehangu'r fformiwla i gynnwys elfennau eraill o'r dyraniad refeniw, gan gynnwys iechyd meddwl a gofal sylfaenol.

## **STAFF ASIANTAETH**

Bydd bob amser angen i sefydliadau allu defnyddio staff dros dro er mwyn ymdopi ag amgylchiadau na ellir eu rhagweld fel absenoldeb oherwydd salwch neu drosiant staff, a bydd effaith y digwyddiadau hyn yn amrywio dros amser. Yn ogystal, gall sefydliadau benderfynu defnyddio staff dros dro er mwyn cynnig hyblygrwydd yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol neu wrth baratoi i ailddylunio gwasanaethau lleol. Mae'n hanfodol sicrhau y creffir ar unrhyw newid mewn gwariant yn briodol, y deallir y rhesymau dros ddefnyddio staff dros dro yn glir a bod camau gweithredu ar waith i leihau'r defnydd o staff dros dro lle y bo'n ymarferol.

Gwnaethom gyflwyno fframwaith rheoli safonedig ledled Cymru yn 2017 er mwyn ymdrin â rhai o'r materion cyffredinol a oedd yn effeithio ar y defnydd o staff asiantaeth ac, yn gyffredinol, mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn gwariant ar asiantaethau meddygol. Roedd y rheolaethau hyn yn cynnwys pennu cyfraddau wedi'u capio, rheolaethau ariannol a threfniadau cyson ar gyfer casglu data a chyflwyno adroddiadau er mwyn gallu meincnodi a chyflwyno adroddiadau ar gyfer Cymru gyfan. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn ddiweddar yn y

gwariant ar y nifer o staff nyrsio dros dro a ddefnyddir. Mae llawer o ffactorau yn dylanwadu ar y rhesymau dros y defnydd cynyddol hwn, a gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd i'r cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau GIG Cymru oherwydd pwysau'r Gaeaf a chyflwyno blwyddyn lawn gyntaf gofynion y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).

Mae'n bwysig nodi bod yr amrywiaeth o ffactorau lleol sy'n effeithio ar y galw am wasanaethau o fewn gwahanol sefydliadau a gwahanol rannau o'r gweithlu wedi'u hadlewyrchu yn eu proffiliau gwariant. Felly, ni fyddem o reidrwydd yn disgwyl i'r ffigurau gwariant ar staff Asiantaeth a staff Locwm i ddilyn tuedd cyson ar i lawr.

Ochr yn ochr â gweithredu'r Fframwaith Rheoli newydd, ac mewn ymateb i astudiaeth ac argymhellion SAC, sefydlwyd Grŵp Llywio ar gyfer Defnyddio'r Gweithlu mewn modd Strategol er mwyn darparu arweinyddiaeth ym mhob rhan o'r GIG. Diben y grŵp hwn yw helpu i ddatblygu a chyflwyno rhaglen waith ar gyfer dod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni blaenoriaethau, meithrin gallu a sicrhau bod adnoddau ar waith i wella'r defnydd effeithiol a wneir o'r gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys ffrwd waith i wella trefniadau rheoli rotâu drwy safoni a gwella'r defnydd hyblyg a wneir o staff drwy e-restrau drwy nodi a rhannu arferion gorau. Cyflawnir gwell hyblygrwydd a gwell defnydd o'r gweithlu dros dro drwy ddatblygu Cronfa'r Gweithlu gydweithredol. Disgwylir i gam cyntaf y ffrwd waith gael ei gyflwyno ar-lein drwy Bartneriaeth Cronfa'r Gweithlu (cyfnod peilot) ar gyfer Nyrsys Cofrestredig o 6 Ebrill 2020.

## **CYD-DESTUN PERFFORMIAD**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth sylweddol i sefydliadau'r GIG yn ystod 2019-20 er mwyn cefnogi gwelliannau o ran perfformiad gofal wedi'i drefnu, ac er mwyn bodloni'r gofynion ychwanegol ar ddarpariaeth gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn ystod cyfnod y gaeaf. Fodd bynnag, bu'n flwyddyn anodd o ran cyflawni o ganlyniad i nifer o ffactorau.

### **Gofal wedi'i gynllunio**

Darparwyd £50 miliwn ychwanegol ar gyfer gwelliannau i ofal wedi'i gynllunio, y dyrannwyd £46.5 miliwn ohono i fyrdau iechyd a defnyddiwyd £3.5 miliwn er mwyn helpu i ailddylunio gwasanaethau i gleifion allanol. Bwriadwyd i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod y tair blynedd flaenorol ac i wella amseroedd aros ar ddiwedd y flwyddyn mewn amrywiaeth o feysydd gofal wedi'i gynllunio. Fodd bynnag, o ganlyniad i bwysau cynyddol ar ofal heb ei drefnu yn ystod y flwyddyn, lle y cofnodwyd y nifer uchaf erioed o gleifion mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mewn 10 allan o'r 12 mis, a newidiadau i reolau treth pensiwn CThEM, ni lwyddodd y byrddau iechyd i drefnu'r capasiti ychwanegol yn lleol i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. O ganlyniad, cyfyngedig fu'r gwelliannau

ym maes gofal wedi'i gynllunio yn ystod y flwyddyn. Yn ôl dadansoddiad o'r effaith ar gleifion rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr ar draws y Byrddau Iechyd, collwyd 3,200 o sesiynau ac effeithiodd hyblygrwydd cyfyngedig i weithredu sesiynau craidd ac ychwanegol ar 27,000 o gleifion.

## **Gofal heb ei drefnu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £40 miliwn i'r sector iechyd a gofal yn ystod 2019-20 er mwyn ymdopi â'r galw am ofal heb ei drefnu, yn enwedig yn ystod cyfnod y gaeaf. Dyrannwyd £27 miliwn o'r cyllid hwn drwy ddewis drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu datrysiadau integredig ar gyfer rheoli achosion o osgoi mynd i'r ysbyty, achosion o ryddhau cleifion yn gynnar ac i gefnogi'r seilwaith cymunedol; dyrannwyd £10 miliwn yn uniongyrchol i fyrddau iechyd a defnyddiwyd £3 miliwn ar gyfer rhaglenni cenedlaethol.

Defnyddiwyd y cyllid mewn perthynas â saith thema allweddol a gyd-gynlluniwyd ag arweinyddion clinigol ac arweinyddion system ar ddechrau 2019-20:

- Optimeiddio trefniadau gweithio traws-sector
- Cydnheredd gofal sylfaenol y tu allan i oriau
- Atal achosion diangen o gludo cleifion i Adrannau Brys a'u derbyn i'r ysbyty
- Trefniadau rhyddhau gan ddilyn llwybrau asesu a gwella
- Capasiti cam-i-lawr yn y gymuned
- Ffocws ar lwybr anadlol
- Ffocws ar eiddilwch

Er y bu 2019-20 yn un o'r blynyddoedd mwyaf heriol a gofnodwyd o ran y galw ar wasanaethau gofal heb ei drefnu, a'r flwyddyn brysuraf a gofnodwyd o ran nifer y cleifion a ddaeth i adrannau damweiniau ac achosion brys, mae'r buddsoddiad ychwanegol wedi arwain at amrywiaeth o ganlyniadau sydd wedi helpu i liniaru'r effaith hon, gan gynnwys:

- Cafodd 24,000 o gleifion gymorth gan y Groes Goch Brydeinig ym mis Rhagfyr 2019 drwy wasanaeth llesiant a Homesafe Adrannau Brys. Cafodd 365 o gleifion agored i niwed eu cludo gartref a'u helpu i setlo. Cafodd 197 o gleifion eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill yn y gymuned, gan arwain at gyfradd bodddhad cleifion o 96%.
- Cafodd 1985 o gleifion gymorth i adael yr ysbyty yn gyflymach ac yn fwy diogel drwy welliannau i'r cartref, gwnaed 3205 o welliannau i gartrefi, 1400 o wiriadau cartref iach (Ebrill-Rhagfyr), cafodd cleifion gymorth i hawlio £0.7m o fudd-daliadau heb eu hawlio (budd-daliadau ychwanegol bob blwyddyn), dywedodd

98% o'r cleifion a ddychwelodd yr arolwg fod y gwasanaeth wedi eu helpu i ddychwelyd adref yn ddiogel ac i fyw'n annibynnol.

## BUDDSODDI MEWN CYMRU IACHACH

Bu 2019-20 yn flwyddyn o fuddsoddiad sylweddol er mwyn helpu i roi'r weledigaeth a nodwyd gennym yn ein cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru Iachach, ar waith. Mae'r adran hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn.

### Y Gronfa Trawsnewid

Lansiwyd y Gronfa Trawsnewid yn ystod haf 2018 â chyllideb o £100miliwn. Hyd yn hyn, ymrwymwyd £89miliwn ar draws yr holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gyda chymorth rhanddeiliaid lleol, gan anelu at wella gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol drwy ddatblygu modelau gwasanaeth llwyddiannus ar raddfa ehangach er mwyn, yn y pen draw, ddisodli modelau gwasanaeth llai llwyddiannus neu fodolau sydd wedi dyddio.

Roedd yn ofynnol i gynigion ddarparu gwybodaeth ddarbwyllol i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r **deg egwyddor dylunio** a nodir yn *Cymru Iachach* ac, yn arbennig, i ddangos y canlynol:

**Bod modd eu cyflwyno ar raddfa ehangach** – gan sicrhau bod arferion da yn cael eu cyflwyno o lefel leol i lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac i dimau a sefydliadau eraill.

**Eu bod yn drawsnewidiol** – gan sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, eu bod yn newid ac yn disodli dulliau sy'n bodoli eisoes, yn hytrach nag ychwanegu haen gwasanaethau barhaol ychwanegol at yr hyn a wnawn ar hyn o bryd.

Mae'r cynigion canlynol **wedi'u cymeradwyo hyd yma** (cyhoeddwyd crynodeb ar dudalennau gwefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/y-gronfa-trawsnewid.pdf>):

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)	Cyfanswm	Y Gronfa Trawsnewid - teitl y cynnig
BPRh Caerdydd a'r Fro	£6,947,984	Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned

<b>BPRh Cwm Taf Morgannwg</b>	£22,734,000	1. Cadw'n lach yn y Gymuned / Cyflymu Newid ar gyfer ein Gwasanaethau Integredig
<b>BPRh Cwm Taf Morgannwg</b>	£1,385,124	2. Dialysis Cartref
<b>BPRh Gwent</b>	£13,458,000	Gweithredu system ddi-dor o iechyd, gofal a llesiant
<b>BPRh Gogledd Cymru</b>	£2,320,000	1. Law yn Llaw at lechyd Meddwl yn y Gogledd
<b>BPRh Gogledd Cymru</b>	£1,690,000	2. Law yn Llaw at lechyd Meddwl yn y Gogledd: Gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl ag anabledau dysgu
<b>BPRh Gogledd Cymru</b>	£3,000,000	3. Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc
<b>BPRh Gogledd Cymru</b>	£6,004,000	4. Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol
<b>BPRh Powys</b>	£2,554,360	Sicrhau Powys lach a Gofalgar
<b>BPRh Gorllewin Morgannwg</b>	£1,731,000	1. Dull System Gyfan Clwstwr Cwm Tawe
<b>BPRh Gorllewin Morgannwg</b>	£8,883,000	2. Cyflwyno'r Dull System Gyfan i saith clwstwr
<b>BPRh Gorllewin Morgannwg</b>	£5,920,840	3. Ein Cynllun Cymdogaeth
<b>BPRh Gorllewin Morgannwg</b>	£261,393	Dialysis Dros Nos
<b>BPRh Gorllewin Cymru</b>	£11,963,306	Gorllewin Cymru lachach
	<b>£88,853,007</b>	

Mae agweddau ar y themâu allweddol – fel gweithio ar sail clwstwr a symud gofal iechyd o ofal eilaidd i ofal sylfaenol a gofal yn y gymuned, a chysylltu gofal iechyd a gofal cymdeithasol – yn amlwg ym mhob cynnig. Mae gwaith yn mynd rhagddo fel rhan o weithgarwch gwerthuso i gymharu ac atgyfnerthu'r allbynnau a'r dangosyddion er mwyn gallu cynnal gwerthusiad ystyrion ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac rydym yn datblygu Cymunedau Ymarfer er mwyn hwyluso cyfleoedd dysgu a gweithredu ymarferol.

Yn ei Ddatganiad Llafar ar 14 Ionawr, cyflwynodd y Gweinidog y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa ac amlinellodd sut y câi'r £11 miliwn sy'n weddill ei

ddyrranu. Yn dilyn hyn, anfonwyd llythyr i bob BPRh yn gofyn am gynigion a chanllawiau atodol.

Mae pob rhanbarth wedi cwblhau Damcaniaethau Newid ar gyfer ei gynigion, a chytunwyd ar Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol ar gyfer y Gronfa Trawsnewid â'r BPRhau ym mis Ebrill 2019. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio, mewn ffordd gynhwysfawr a chyson, ac i gefnogi cyfleoedd i roi cynigion ar waith yn ehangach ac mewn ffordd gyson ledled Cymru. Mae'r BPRhau wedi cyflwyno eu Hadroddiadau Gwerthuso Canol Cyfnod cyntaf er mwyn cyflwyno'r canfyddiadau cynnar ar gynnydd prosiectau trawsnewid hyd yma.

Rydym wedi cynnal gweithdai rhwydwaith dysgu rheolaidd lle mae timau rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn trafod cynnydd, gwersi ac enghreifftiau o arferion da yn deillio o'r cynigion, a chynhaliwyd 14 o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gweithlu i gyflwyno prosiectau trawsnewid lleol ledled Cymru, wedi'u trefnu a'u cynnal ar ffurf partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r BPRhau.

### **Blaenoriaethau Digidol**

Sefydlwyd Cronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol, gwerth cyfanswm o £50 miliwn yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf a referniw, yn 2019-20 fel galluogwr allweddol ar gyfer newid y system. Caiff y Gronfa ei rheoli fel portffolio o raglenni strategol ar draws chwe thema:

- Trawsnewid gwasanaethau digidol i gleifion a'r cyhoedd
- Trawsnewid gwasanaethau digidol i weithwyr proffesiynol
- Buddsoddi mewn data a gwybodaeth ddeallus
- Moderneiddio dyfeisiau a symud i wasanaethau cwmwl
- Seiberddiogelwch a chadernid
- Gweithgarwch Trawsbynciol Allweddol

Mae'r allbynnau allweddol o'r Gronfa yn 2019-20 yn cynnwys y canlynol:

- Cynnal pedwar adolygiad allweddol (seilwaith, masnachol, y gweithlu a chyfathrebu);
- Sefydlu swydd Prif Swyddog Digidol ar gyfer Gofal a recriwtio i'r swydd honno;
- Gwaith trosiannol i sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig newydd ar gyfer Gwasanaethau Digidol;
- Rhaglenni allweddol fel yr Adnodd Data Cenedlaethol a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

## Gofal Sylfaenol

Sefydlwyd y gronfa gofal sylfaenol genedlaethol gwerth £40m yn 2015-16 â thair blaenoriaeth benodol; cynaliadwyedd gwasanaethau, gwell mynediad a sicrhau bod mwy o wasanaethau ar gael yn y gymuned. Mae'r cyllid yn cyflawni'r canlynol:

- Profion systematig a phrosesau ar gyfer rhannu gwersi mewn perthynas â modelau gofal di-dor newydd drwy raglen genedlaethol ar gyfer pennu cyfeiriad gofal sylfaenol
- Gwell mynediad i'r gweithiwr proffesiynol cywir drwy sicrhau mwy o dimau ambroffesiwn mewn meddygfeydd e.e. fferyllwyr a ffisiotherapyddion
- Gwell mynediad i amrywiaeth eang o wasanaethau llesiant anghlinigol drwy gyflwyno rolau newydd yn y gweithlu i gysylltu pobl â'r gwasanaethau hyn
- Cynyddu capasiti timau gwasanaethau cymunedol

Ym mis Mehefin 2019, yn dilyn negodiadau, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) newydd ar gyfer 2019-20. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad newydd o tua £25m mewn gwasanaethau meddygol cyffredinol ac addasiad parhaol untro mewn perthynas â chostau indemnedd, heb unrhyw oblygiadau i'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol yn y dyfodol.

Roedd y buddsoddiad newydd yn cynnwys y canlynol:

- Codiad o 3% yn elfen treuliau cyffredinol y contract;
- Buddsoddi er mwyn gweithredu'r Safonau ar gyfer Mynediad i Wasanaethau Meddygon Teulu yn ystod Oriau Arferol;
- Buddsoddi yn y Swm Craidd er mwyn cyllido anghenion seilwaith practisau sy'n gweithio tuag at gyrraedd y safonau mynediad;
- Cyflwyno Cynllun Premiwm Partneriaeth newydd er mwyn cymell trefniadau gweithio mewn partneriaeth fel y model cyflwyno a ffefrir ac er mwyn annog ein meddygon teulu newydd i ymgymryd â'r rolau partner hyn

Yn ogystal, cytunwyd ar y gweithgareddau canlynol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau meddygol cyffredinol:

- Gyda ffocws clir ar atgyfnerthu rôl clystyrau o ran cydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau yn lleol, bydd bellach yn ofynnol i bractisau fod yn aelodau o glwstwr, drwy delerau'r contract craidd.



- Cynnwys gwell proses ar gyfer cynllunio clystyrau â dangosyddion allbwn a gweithgarwch wedi'u diffinio'n glir yn y Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd newydd a'i gwneud yn ofynnol i'r broses o ddarparu Gwasanaethau Estynedig gael ei chynllunio ar lefel clwstwr. Caiff cyd-destun strategol ehangach a threfniadau llywodraethu Gwasanaethau Estynedig eu hadolygu yn ystod 2020.
- Fframwaith Sicrhau a Gwella Ansawdd diwygiedig sy'n canolbwyntio ar welliannau, gan gynnwys cyflwyno "basged" o Brosiectau Gwella Ansawdd i'w gweithredu ar lefel clwstwr gan ganolbwyntio ar Ddiogelwch Cleifion.

### **Atal a'r Blynyddoedd Cynnar**

Buddsoddwyd £10 miliwn i gefnogi ymyriadau effeithiol mewn perthynas ag atal salwch a'r blynyddoedd cynnar. Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y dylid defnyddio £2.8 miliwn i sefydlu cynllun grant yn benodol i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Ysgrifennais at fyrddau Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a chadeiryddion y BPRhau yn nodi manylion ar gyfer dyrannu'r £7.2 miliwn a oedd yn weddill ar gyfer rhaglenni ymyriadau Iechyd wedi'u targedu. Caiff y cyllid a ddyrannwyd i'r byrddau Iechyd ei fuddsoddi drwy gynlluniau y cytunwyd arnynt ar y cyd â'r BPRhau y gofynnwyd iddynt gytuno ar flaenoriaethau buddsoddi yn eu rhanbarthau. Nod y cyllid a ddyrannwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru yw gwella arweinyddiaeth systemau ar lefel genedlaethol a hwyluso trefniadau i gyflwyno cynlluniau atal cyffredinol ar lefel ehangach.

Fel rhan o'i rôl arweinyddiaeth systemau, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi llunio manyleb ddrafft ar olrhain gwariant ar weithgareddau atal. Mae'r fanyleb yn cynnwys y canlynol: pennu llinellau gwariant sylfaenol ar weithgareddau atal; adolygu'r dystiolaeth er mwyn dysgu gan wledydd sydd wedi buddsoddi symiau sylweddol mewn weithgareddau atal neu sydd wedi llwyddo i newid y sefyllfa; ymgysylltu â rhanddeiliad er mwyn deall y rhwystrau a'r galluogwyr a deall model ar gyfer olrhain gwariant ar weithgareddau atal. Bydd y gwaith hwn a wneir yn ystod 2020-21 yn gydnaws â blaenoriaethau Creu Cymru Iachach ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda swyddogion er mwyn sicrhau hynny.

### **Buddsoddi yn ein gweithlu**

Ein hamcan yw sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y GIG yn parhau'n gyflogwr a ffeirir yng Nghymru.

Mae Cymru yn ymrwymedig i'r broses adolygu cyflogau annibynnol lle y caiff y Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion (DDRB) a Chorff Adolygu Cyflogau'r GIG eu comisiynu gan adrannau Iechyd y DU bob blwyddyn i ddarparu arsylwadau ac argymhellion ar gyflogau meddygon a deintyddion y GIG a staff y GIG yn unol â thelerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid.

Lluniwyd cytundeb cyflogau tair blynedd i staff yr Agenda ar gyfer Newid, a weithredwyd ar sail y pedair gwlad, mewn partneriaeth yn 2018 ac felly, ar gyfer cylchoedd cyflogau 2019-20 a 2020-21, gofynnwyd i Gorff Adolygu Cyflogau'r GIG fonitro a gwneud arsylwadau ar y broses o roi'r cytundeb hwn ar waith.

Ar gyfer cylch cyflogau 2020-21, fel ar gyfer 2019-20, rydym wedi gofyn i'r Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion wneud arsylwadau ac argymhellion ar yr hyn a fyddai'n ddyfarniad cyflog fforddiadwy a theg i feddygon a deintyddion. Rydym yn disgwyl i Gorff Adolygu Cyflogau'r GIG a'r Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion gyhoeddi eu hadroddiadau ar gyfer 2020-21 ym mis Mehefin ac, ar ôl hynny, byddwn yn ystyried eu hargymhellion ac yn rhoi cyngor i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydym yn cynyddu ein buddsoddiad mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru. Gwnaethom fuddsoddi £7 miliwn ychwanegol yn 2019-20, a byddwn yn buddsoddi £15 miliwn pellach yn 2020-21. 2020-21 fydd y chweched blwyddyn yn olynol y mae cyllid i gefnogi addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru wedi cynyddu.

2019-20 yw blwyddyn ariannol lawn gyntaf Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) y mae ganddo swyddogaethau penodol i drawsnewid y gweithlu. Mae'r sefydliad yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol blwyddyn o hyd yn 2019-20, ac mae bellach wedi cyflwyno CTCl tair blynedd i'w gymeradwyo sy'n ymwneud â'r cyfnod o 2020 i 2022.

## **CRYNODEB**

Er bod nifer o heriau ariannol y mae angen ymdrin â nhw o hyd ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, rwyf yn disgwyl i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyffredinol lwyddo i fantoli'r gyllideb unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn. Mae mwyafrif sefydliadau'r GIG bellach yn dangos sefydlogrwydd ariannol ac aeddfedrwydd yn eu prosesau cynllunio, ond mae tri sefydliad yn parhau i beri pryder, yn arbennig o ran rheoli eu cyllid, er bod meysydd eraill hefyd wedi dod i'r amlwg drwy'r broses uwchgyfeirio. Mae amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newidiadau i'r rheolau treth a lefelau sylweddol o alw am ofal aciwt, wedi cyflwyno heriau yn ystod y flwyddyn o ran perfformiad a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wneud cynnydd wrth drawsnewid y sector iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â'n cynllun a nodwyd yn Cymru Iachach, gyda modelau gofal newydd yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith ym mhob rhanbarth, a chydâ buddsoddiad newydd sylweddol mewn technoleg ddigidol. Disgwylir i'r cynnydd hwn barhau a chyflymu yn ystod 2020-21.

Mr Nick Ramsay AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel/Ffôn: 029 2032 0500  
Fax / Ffacs: 029 2032 0600  
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660  
[info@audit.wales](mailto:info@audit.wales) / [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
[www.audit.wales](http://www.audit.wales) / [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

**Cyfeirnod:** AC/181/caf

**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Chwefror 2020

Annwyl Nick

## Cyllid y GIG a gwariant ar asiantaethau 2019-20: diweddariad o fewn y flwyddyn

Yr haf diwethaf, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan Andrew Goodall a'i dîm ar gyllid y GIG, a dilynwyd hynny â gohebiaeth ysgrifenedig bellach. Roedd eich llythyr at Andrew ar 27 Medi 2019 yn nodi mai uchelgais Llywodraeth Cymru oedd yr ymdrinnid ag unrhyw ddiffyg gweddilliol yn y GIG yn 2019-20 o fewn prif grŵp gwariant lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i bod yn disgwyl y câi holl ddiffygion y byrddau iechyd eu dileu erbyn 2020-21.

Roedd y llythyr yn mynegi amheuan y Pwyllgor ynghylch rhai o'r disgwyliadau hyn, yn enwedig o ystyried yr heriau hirdymor ym Myrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda. Nodai hefyd fwiad y Pwyllgor i gadw golwg ar y sefyllfa, ac ailedrych ar gyllid y GIG a chostau staff asiantaeth y GIG yn ystod haf 2020 neu'n gynharach pe bai arwyddion nad oedd y gwelliant fel y disgwyliid.

I gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'i waith craffu parhaus, rydym wedi diweddaru ein hoffer data rhyngweithiol ar-lein ar gyfer Cyllid y GIG [[Saesneg](#) a [Cymraeg](#)] a Staffio Asiantaethau'r GIG [[Saesneg](#) a [Cymraeg](#)] i roi crynodeb o berfformiad blwyddyn ariannol 2019-20 hyd at 31 Rhagfyr 2019 a rhagolygon GIG Cymru ar gyfer yr alldro ar 31 Mawrth 2020.

Yn y llythyr hwn, rwyf yn rhoi crynodeb byr o'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer y Pwyllgor, gyda gwybodaeth bellach yn y ddau atodiad.

## Cyllid y GIG

Mae'r ail Gyllideb Atodol wedi'i chyhoeddi bellach, ac ar gyfer 2019-20 mae'n dangos bod y gyllideb sy'n gysylltiedig â refeniw iechyd wedi cynyddu o 6.8% mewn termau real.

Mae'r codiadau ariannol sylweddol hyn yn rhai nas gwelwyd yn y GIG ers peth amser. Er bod rhywfaint o'r refeniw a ddyrannwyd wedi cael ei ddefnyddio i

ariannu cynnydd mewn costau cyflog a phensiwn, dylai hefyd hwyluso perfformiad ariannol gwell ar draws GIG Cymru, gan gynnwys symud tuag at uchelgais Llywodraeth Cymru o ddileu'r holl ddiffygion yn 2020-21.

Ar 31 Rhagfyr, roedd cyrff GIG Cymru gyda'i gilydd yn rhagweld diffyg o £72 miliwn ar gyfer 2019-20. Er y byddai hyn yn golygu gwelliant ar alldro y llynedd o ddiffyg o £96 miliwn, mae'n £12 miliwn yn fwy na'r diffyg o £60 miliwn a ragwelid ganddynt ar ddechrau'r flwyddyn, a £32 miliwn yn fwy na'r 'cyfansymiau rheoli' a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff iechyd.

Er bod GIG Cymru yn disgwyl sicrhau 17% yn fwy o arbedion nag a gynlluniwyd ganddo ar gyfer y flwyddyn, mae cyfanswm gwerth yr arbedion disgwyledig hynny yn dal i fod 18% yn is na'r llynedd. Mae cynlluniau arbedion, os cânt eu cyflawni, yn elfen hanfodol o ran llywio perfformiad ariannol gwell; fodd bynnag, natur ailadroddus yr arbedion sy'n sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod. Sylwaf fod disgwyl i'r gyfran o arbedion sy'n ailadroddus ar draws GIG Cymru ostwng o 79% yn 2018-19 i ddim ond 68% eleni.

Yn seiliedig ar y rhagolygon hyn, bydd tri bwrdd iechyd yn cynhyrchu diffygion ariannol o fewn y flwyddyn ar gyfer 2019-20. Bydd pedwar bwrdd iechyd yn methu yn eu dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd, fel y maent wedi gwneud ers cyflwyno'r dyletswyddau newydd o dan Ddeddf 2014.

Mae'r sefyllfa yr adroddwyd amdani ar 31 Rhagfyr felly wedi rhoi pwysau ar sefyllfa fantoli'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2019-20. Mae hefyd yn awgrymu y gall fod yn ymdrech i gyrff GIG Cymru fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru i ddileu holl ddiffygion y byrddau iechyd erbyn 2020-21.

Rwyf yn nodi manylion pellach yn Atodiad 1.

## Gwariant staffio asiantaeth y GIG

Mae GIG Cymru yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd yn cofnodi ei wariant blynyddol uchaf erioed ar staff asiantaeth yn 2019-20.

£127 miliwn oedd gwariant y GIG ar staff asiantaeth mewn Byrddau Iechyd ac yn Ymddiriedolaethau'r GIG am naw mis cyntaf 2019-20, a rhagwelir y bydd yn codi i £169 miliwn erbyn 31 Mawrth 2020. Awgryma amcanestyniadau cyrff iechyd y caiff £128 miliwn o hyn (76%) ei wario ar staff llanw oherwydd swyddi gwag.

Rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaethau nyrsio ledled Cymru yn 2019-20 yn codi o £12 miliwn (19%). Fodd bynnag, ymddengys bod a wnelo hyn yn bennaf â'r ddau gorff iechyd yr effeithiodd newidiadau ffiniau arnynt o 1 Ebrill 2019 - Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe. Gellid yn rhesymol fod wedi disgwyl y byddai gostyngiad yn y gwariant ar asiantaethau nyrsio ym Mae Abertawe eleni, gan fod eu gwasanaethau wedi crebachu o tua 27%, ond nid yw'r lefelau gwariant gwirioneddol wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

Rwyf yn nodi manylion pellach yn Atodiad 2.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor wrth iddo baratoi i dderbyn tystiolaeth lafar gan Lywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth.

Yn gywir




**ADRIAN CROMPTON**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Atodiad 1: Cyllid GIG Cymru

### Cyllid

Mae'r gyllideb ar gyfer GIG Cymru wedi cynyddu'n sylweddol rhwng 2018-19 a 2019-20. Heb addasu ar gyfer chwyddiant, mae'r gyllideb 'refeniw iechyd'<sup>1</sup> wedi tyfu o £7.3 biliwn yn 2018-19 i £7.9 biliwn, gyda chynnydd o £650 miliwn. Gan gymryd chwyddiant i ystyriaeth, mae'r gyllideb wedi cynyddu 6.8%. Hwn yw'r cynnydd mwyaf o bell ffordd yn y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 1). Mae'r cynnydd hwn yn cynnwys arian ychwanegol sylweddol a ddyrannwyd yn ystod y flwyddyn. Daeth peth o'r cyllid o fewn y flwyddyn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU i dalu am newidiadau i bensiynau, esgeulustod meddygol a thaliadau iechyd mewnfudo ledled y DU. Daeth rhywfaint o arian ychwanegol o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys £17 miliwn ar gyfer blaenoriaethau a phwysau o fewn y flwyddyn.

Ffigur 1: Cyllideb refeniw iechyd (termau real ar brisiau 2018-19)



Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Mewn theori, dylai'r cynnydd hwn o 6.8% mewn termau real fod wedi gwneud mwy na chwmpasu'r galw o 3.2% i 3.9% mewn termau real a phwysau costau y mae'r

<sup>1</sup> Mae 'refeniw iechyd' yn cwmpasu'r cyllid yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer rhedeg gwasanaethau'r GIG o ddydd i ddydd, cymorth canolog a gweithgareddau iechyd cyhoeddus. Daw'r ffigurau yn y siart o ail gyllideb atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn ariannol.


Sefydliad Iechyd wedi amcangyfrif bod y GIG yng Nghymru yn eu hwynebu bob blwyddyn. Yn ymarferol, fodd bynnag, ac fel y nodir yn fanylach isod, mae'r GIG wedi parhau i'w chael yn anodd ymdopi â'r pwysau hynny. Rhan o'r eglurhad am y sefyllfa bresennol yw nad yw'r holl arian ychwanegol yn y gyllideb wedi mynd i reoli'n uniongyrchol y pwysau presennol ar y gwasanaethau iechyd. Bu rhai dyraniadau untro sylweddol, gan gynnwys £170 miliwn i dalu am newidiadau pensiwn, £95 miliwn ar gyfer dyfarniadau cyflog a £52 miliwn i gefnogi gwell perfformiad, yn enwedig ar gyfer amseroedd aros dewisol.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £192 miliwn yn ychwanegol i gefnogi ei huchelgais i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a thrawsnewid gwasanaethau'n ehangach, fel yr esboniwyd yn [Dyfodol Iachach i Gymru](#). Dyrannwyd peth o'r arian hwn yn uniongyrchol i lywodraeth leol i gefnogi gofal cymdeithasol neu cafodd ei rannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd y buddsoddiad hwn yn esgor ar welliannau yn effeithiolrwydd cost y gwasanaethau iechyd a gofal yn y tymor hwy.

### Perfformiad Ariannol

Ar 31 Rhagfyr 2019, rhagfyneodd GIG Cymru y byddai'r diffyg yn 2019-20 yn £72.3 miliwn. A derbyn bod y diffyg yr adroddwyd amdano ar y dyddiad hwnnw yn £65.9 miliwn yn barod, byddai angen perfformiad ariannol llawer gwell yn y tri mis olaf i gyrraedd y diffyg a ragfynegyd. Os caiff ei gyrraedd, bydd hyn yn parhau'r duedd tuag at welliant a ddangosir yn Ffigur 2.

**Ffigur 2: Alldro referniw GIG Cymru: 2016-17 i 2019-20 (fel y rhagfynegyd)**




**Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru**

Er bod hyn yn cymharu'n ffafriol ag alldro diffyg y llynedd o £96 miliwn, mae'n £12 miliwn yn fwy na'r diffyg a ragwelwyd ar ddechrau'r flwyddyn a £32 miliwn yn fwy na'r diffygion targed (cyfansymiau rheoli) oedd yn eu lle ar gyfer cyrff iechyd yn chwarter tri.

Dengys Ffigur 3 sut mae sefyllfa'r diffyg wedi symud yn erbyn y rhagolwg drwy'r flwyddyn.

**Ffigur 3: Rhagolwg 2019-20 GIG Cymru o gymharu â'r targed**



### **Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiadau Monitro Misol cyrff y GIG**

Mae tri o gyrff y GIG yn rhagweld diffyg ar gyfer 2019-20, un yn llai nag yn 2018-19. O'r tri hyn, mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda, er eu bod yn dangos tueddiadau gwell, ill dau yn disgwyl mynd dros eu 'cyfansymiau rheoli' (diffygion blynyddol a gytunwyd ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru) o £10 miliwn. Mae'r trydydd corff, Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, yn rhagweld diffyg o £12.3 miliwn o'i gymharu â'r sefyllfa fantoli a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.


Ar sail y rhagolygon hyn, bydd bedwar Bwrdd Iechyd yn methu â chyflawni eu dyletswydd ariannol gyntaf o dan Ddeddf 2014 (mantoli dros gyfnod treigl o dair blynedd). Bydd diffyg cronol GIG Cymru, ers cyflwyno'r hyblygrwydd ariannol hwn chwe blynedd yn ôl, hefyd yn cynyddu unwaith eto i ryw £590 miliwn.

Yn fwy cadarnhaol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (sydd bellach â chynllun tair blynedd cymeradwy ar waith ac a gafodd ei ddaduwrchgyfeirio o 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu' yn ystod y flwyddyn) yn rhagweld y bydd yn mantoli o fewn y flwyddyn yn 2019-20, am y tro cyntaf mewn pedair blynedd.



Mae perfformiad yn erbyn dyletswyddau ariannol hyd yma wedi ei grynhoi yn **Ffigur 4**

**Ffigur 4: Perfformiad cyrff y GIG yn erbyn dyletswyddau ariannol**




**Ffynhonnell: Offeryn data Cyllid GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru**

### **Cynlluniau Arbedion**

Elfen allweddol o allu GIG Cymru i wella perfformiad ariannol yw nodi a chyflawni cynlluniau arbedion ailadroddus.

Dengys **Ffigur 5**, yn seiliedig ar ragolwg Rhagfyr 2019 ar gyfer 2019-20, bod yr arbedion blynyddol sy'n cael eu sicrhau yn lleihau a bod cyfran yr arbedion sy'n ailadroddus wedi gostwng eleni. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru, ar 31 Rhagfyr, wedi adrodd bod dau gorff iechyd eto i gwblhau'r arbedion a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Ffigur 5: Cyflawni arbedion GIG Cymru



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiadau Monitro Misol cyrff y GIG

#### Sylwer:


Mae ein hofferyn data rhyngweithiol ar-lein [[Saesneg](#) a [Cymraeg](#)] yn darparu dadansoddiadau cymharol o wariant a sefyllfaoedd ariannol GIG Cymru. Diweddarwyd yr offeryn hwn yn ddiweddar â data monitro misol a gyflwynwyd gan gyrrff iechyd unigol i Lywodraeth Cymru yn adrodd am wariant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 a'r gwariant a ragwelid ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.

## Atodiad 2 Gwariant y GIG ar staff asiantaeth

Fel y dangosir yn Ffigur 6, roedd gwariant ar asiantaethau wedi cyrraedd uchafbwynt o £164 miliwn gynt yn 2016-17. Gostyngodd y gwariant cyffredinol ar staff asiantaeth o £29 miliwn (17%) rhwng 2016-17 a 2017-18, ond mae tuedd o gynnydd blynyddol wedi ailgychwyn.

Yn 2018-19, cynyddodd gwariant ar asiantaethau o £8 miliwn (5.8%) a rhagwelir y bydd yn cynyddu o £25 miliwn (18%) yn 2019-20.


**Ffigur 6: Cyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth rhwng 2010-11 a 2019-20**



**Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaeth yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru**

Dengys **Ffigur 7** y rhagwelir y bydd gwariant ar asiantaethau yn cynyddu ym mhob categori staff yn 2019-20, gyda'r cynnydd mwyaf ar staff Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd y gyfran a ragwelir o'r cyfanswm o wariant ar asiantaethau, fydd yn cael ei wario ar feddygon a nyrsys yn 2019-20 (81%), yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Rhagwelir y bydd y gyfran o wariant ar staff meddygol yn gostwng o 3% i 35%, tra bydd y gyfran a werir ar staff nyrsio yn parhau ar 46%.

**Ffigur 7: Rhagolwg gwariant y GIG yng Nghymru ar staff asiantaeth yn ôl grŵp staff yn 2019-20, o'i gymharu â'r gwariant gwirioneddol yn 2018-19**



**Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaethau yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru**

Rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaethau nyrsio ledled Cymru yn 2019-20 yn cynyddu o £12 miliwn (19%). Ymddengys bod a wnelo hyn yn bennaf â'r cyrff iechyd y mae'r newid ffiniau ym mis Mawrth 2019 wedi effeithio arnynt.

Dengys Ffigur 8 y rhagwelir y bydd gwariant yr asiantaethau nyrsio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bae Abertawe gyda'i gilydd ar gyfer 2019-20 yn £9 miliwn yn fwy na'r gwariant cyfunol yn y cyrff hynny y flwyddyn flaenorol.

Er y gellid disgwyl cynnydd o bosibl yng ngwariant Cwm Taf Morgannwg, wrth iddo ysgwyddo'r gwasanaethau a ddarperid gynt gan y bwrdd a elwir bellach yn Bae Abertawe, mae'n rhyfedd efallai nad yw gwariant Bae Abertawe wedi lleihau.

Ffigur 8: Rhagolwg gwariant ar asiantaethau nyrsio ar gyfer 2019-20 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe o'i gymharu â gwariant yn y cyrff a'u rhagflaenodd yn 2018-19

	<b>BIP Bae Abertawe (Abertawe Bro Morgannwg gynt) £ miliwn</b>	<b>BIP Cwm Taf Morgannwg (Cwm Taf gynt) £ miliwn</b>	<b>Cyfanswm £ miliwn</b>
Gwariant gwirioneddol 2018-29	12.1	7.0	19.1
Gwariant a ragwelir yn 2019-20	12.1	16.1	28.3
<b>Cynnydd mewn gwariant</b>	<b>0.04</b>	<b>9.1</b>	<b>9.2</b>

Ffynhonnell: Gwariant ar staff asiantaeth yn ôl Offeryn data GIG Cymru Swyddfa Archwilio Cymru

Yn genedlaethol, rhagwelir y bydd gwariant ar staff asiantaeth meddygol yn cynyddu o £5 miliwn (10%), ac mae'r mwyafrif ohono yn ymwneud â Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr. Mae Aneurin Bevan hefyd yn darogan y bydd yn gwario £2 filiwn yn fwy ar staff asiantaethau nyrsio yn y flwyddyn ariannol hon.

Sylwer:

Mae ein hofferyn data rhyngweithiol ar-lein [[Saesneg](#) a [Cymraeg](#)] yn darparu dadansoddiadau cymharol o wariant asiantaeth yn ôl corff y GIG a fesul grŵp o staff. Diweddarwyd yr offeryn hwn yn ddiweddar â data monitro misol a gyflwynwyd gan gyrff iechyd unigol i Lywodraeth Cymru yn adrodd am wariant gwirioneddol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2019 a'r gwariant a ragwelid ar gyfer Ionawr, Chwefror a Mawrth 2020.